


Y

STAMP



BETI GEORGE HANNAH + JASMINE CASH NIA EVANS DYLAN HUW  
MARI GRIFFITH MEGAN DAVIES HUW L WILLIAMS LEA SAUTIN PRYS  
MORGAN KANDACE WALKER MARIAN BROSSCHOT



GWAITH CELF PRYS MORGAN

CYFWELIAD LLAWN TUDALEN 16

# Y

# STAMP

Rhifyn 11 \ Hawlfraint 2020 Y Stamp \ Argraffwyd yng Nghymru  
gan Y Lolfa \ Golygu gan Esyllt Lewis, Grug Muse a Iestyn Tyne \  
Cysodi gan Esyllt Lewis \ Celf y clawr gan Carys Huws

////////////////////////////////////

Gall cyfraniadau i'r cylchgrawn hwn gynnwys rhegfeydd, iaith gref a deunydd aeddfed ar brydiau.

**Barn  
awduron  
unigol a  
gyhoeddir yn  
Y Stamp, ac  
nid o  
reidrwydd  
rhai'r  
cylchgrawn  
a'r bwrdd  
golygyddol.**



*Deffnchw y dda'ed!*

**NODYN AR ADOLYGIADAU:** Mewn byd llenyddol sy'n gallu bod yn un cyfyng ar brydiau, polisi'r Stamp o'r dechrau fu i gyhoeddi ein holl adolygiadau o ddeunydd newydd Cymraeg a Chymreig yn ddi-enw, gyda'r bwriad o annog adolygu gonest a hyderus.

**Diolch am gefnogi, darllen,  
cyfrannu.**

<3

# G Y N N W Y S

Golygyddol	5
Maniffesto	6
Adolygiadau	7, 11, 18, 28, 29, 34
Snocio trwy sanau: Kandace Walker a Judith Musker Turner	8
Gerdd: Rhys Trimble	10
Cyfarwyddiadau Llwyfan: Nia Evans	12
Gelf: Ceri Rhys Matthews	14
Normal Newydd: Marian Brosschot	15
Cyfweliad: Prys Morgan	16
Atodiad: Sticeri Sticeri	19
Ymateb i Gelf: Lea Sautin / Hannah + Jasmine Cash	20
Taith Gelf Rithiol i Rufain: Mari Griffith	22
Ysgrif Ambell Dwell: Dylan Huw	27
Gerdd: Gareth Evans Jones	30
Nel a Ken: Megan Davies	31
Gartrefi Cymru: Huw Williams	35
Gerdd: Heather Williams	39
Gerddi: Morgan Owen	40
Bywgraffiadau	42



a

# Hwyl fawr

# G O L Y G Y D D O L



A dyma gyrraedd, felly, hwn – y Stamp olaf. Bendith arno fo, a boed iddo gicio a stampio ei ffordd i'r byd fel ei ddeg rhagflaenydd.

Daeth yn bryd i griw arall a'u syniadau roi ysgydwad i sîn sydd angen ysgydwad bob hyn a hyn; ein gobaith yw ein bod ni wedi llwyddo i wneud hynny o bryd i'w gilydd, gan greu newid er gwell yn ein ffordd fach ein hunain hefyd. Mae gwaith Patriarchaeth, ein holynwyr, yn blaenoriaethu gofal, tegwch a chyfiawnder wrth gyd-sefyll mewn undod â phawb sy'n ymladd dros fyd gwell; yn ymrwymedig i gyd-gyfeirioldeb, traws-gynwysoldeb, diddymiad a gwrth-hiliaeth. Dyma'r gwerthoedd y dylai pob cyhoeddiad fod yn eu hamddiffyn trwy eu gwaith, ac rydyn ni'n gyffrous iawn i weld gwaith y cyhoeddiad newydd hwn yn dwyn ffrwyth.

Rydym yn byw mewn cyfnod ansefydlog; mae yna ddegawdau sigledig eto i ddod o'n blaenau, ond mi all gwaith creadigol fod yn wrthgyffur i'r diymadferthedd sy'n cydio mor hawdd, yn ogystal â bod yn ddull o weithredu yn erbyn llawer o'r grymoedd tywyll sydd ar waith yn y byd heddiw. Yn wythnosau cyntaf 2021, wrth baratoi'r rhifyn hwn i'r wasg, bu farw Mohamud Hassan, gŵr ifanc Du o Gaerdydd, oriau yn unig wedi iddo gael ei arestio a'i gymryd i'r ddalfa gan yr heddlu. Mae'r flwyddyn yn newydd, ond yr un yw'r hanes; mudandod y cyfryngau, datganiadau gwag yr heddlu, a bywyd Du arall nad oedd, mae'n debyg, o bwys digonol.

Mae'r pandemig, a'r ymateb echrydus iddo, yn rhygnu ymlaen, gan adael teuluoedd ar hyd a lled y wlad a thros y byd mewn galar; gwaethygu eto fyth mae ffawd ffoaduriaid sy'n ceisio cyrraedd yma, ynghyd â'r bobl dlotaf a bregusaf sydd yma'n barod. Ac fel pe'n gefnlen sinistr i'r cyfan, hawdd ei anghofio rhwng popeth, newid hinsawdd; mae holl ddeunydd a gwriad y ddaear sy'n ein cadw'n fyw ar fin y gyllell. Wrth esgeuluso'r cread, daw creu yn fwyfwy diystyr.

Mae felly'n teimlo'n chwithig, ac eto'n berffaith naturiol, mai rhyw ddiwedd sydyn fel hyn fydd i gylchgrawn Y Stamp wedi'r cyfan; mi fydd ein creadigaeth yn aros yn fythol ifanc trwy anwybod y dyfodol, wrth i ninnau fynd yn hen a phenwyn a gorfod brwydro yn galetach rhag cael ein llyncu gan y sefydliad y buon ni'n trio'n gorau i godi braw arno fo.

Ar sail o ewyllys da a chydweithio, o gadw'n hannibyniaeth a rhoi llwyfan i ystod o safbwyntiau heriol a lleisiau newydd a chyffrous o gefndiroedd amrywiol, y sefydlwyd Y Stamp. Rhyfedd o fyd yw'r byd lle ystyrir y gwerthoedd hynny yn werthoedd radical; byd lle mae cyd-dynnu, creu er lles creu, a rhannu budd yn gysyniadau estron; byd mor llwyr yng nghrafangau cyfalafiaeth nes bod creu cyhoeddiad fel hwn yn wirfoddol yn teimlo bron yn amhosib o anghynladwy ar brydiau.

Ond mae gobaith. Cyhyd ag y bydd rhywun yn rhywle yn rhoi pin ar bapur neu frwsh ar gynfas i roi mynegiant i'r hyn sydd ar eu meddwl, mae gobaith y gallwn newid y byd.

Ionawr 2021

# MANIFESTO

BETI GEORGE

Cefais gais i lunio maniffesto a hwnnw'n un penagored.

Reit! **Cyfle i gorddi ac achosi trwbl** ac i fod yn drendi a defnyddio iaith sy mor ffasiynol ar Twitter a FB.

A sôn am iaith, esgusodwch fi, ond mae fy iaith bach yn hen ffasiwn erbyn hyn. Mae'n rhaid i fi fynd i'r arfer o dowlu mwy o eiriau Saesneg i fewn. So felly, dw i reeli yn tshyffd mod i wedi cael y gwahoddiad i sgrifennu maniffesto. Mae'n amazing!

Nawr, os ydych chi am loywi'ch Cymraeg, y ffordd ore i fynd ati yw darllen yr holl stwff sy'n dod mas o'r lle 'na lawr ym mae Caerdydd a'r holl gyrff eraill sy'n gysylltiedig ag e! Peidiwch â phoeni am yr holl acronymau. **Os ydi'r boblach yn deall gormod, fe allen nhw wrthryfela** ac mae'n ddyletswydd ar yr awdurdodau i gadw'r heddwch.

Felly, cymal pwysig yn fy maniffesto — mwy o acronymau a mwy o iaith i ddrysu'r boblach.

Diolch byth bod Farage a'i griw wedi ei deall hi. Gadewch i ni **ennill yn ôl ein rheolaeth** ar ein gwlad ein hunain.

Gweiddi hwrê wrth adael Ewrop yw un o addewidion pwysicaf y maniffesto. Fe fydd Ewrop yn boddi hebddon ni.

A thra mod i'n sôn am foddi — mae rhai wedi crybwyll boddi Trump? Mor annheg! Yn fy maniffesto fe fydd 'na wahoddiad iddo ddod draw yma **a chyfnewid ei America First am Wales First** ac fe gaiff bob cefnogaeth ganddon ni i godi Tŵr Trump yn Aberystwyth.

A beth am BoJo? Rhaid i ni faddau iddo fe am ei gamweddau, am iddo, druan, gael magwraeth ansefydlog oherwydd ymddygiad a diffyg moesau ei dad.

Yn fy maniffesto fe gaiff gyfle i brofi ei hun. **Bydd gornest focsio yn cael ei threfnu** rhyngddo fe a'n arwr diweddera ni Mark Drakeford.

Cymru a'i dyfodol wrth gwrs fydd yn hawlio'r adran bwysica' yn y maniffesto. Bydd yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dweud ta ta wrth yr "Undeb". Pob lwc iddyn nhw. Bydd Lloegr wedyn yn ein gwobrwyo ni am ein teyrngarwch ac yn cynnig i ni rywbeth y mae pobl ym mhob cwr o'r byd yn ei chwennych. Pobl sy'n fodlon peryglu eu bywydau wrth groesi cyfandiroedd a moroedd. A miloedd ohonyn nhw yn cael eu gwrthod am nad ydyn nhw'n deilwng o dderbyn y wobr. Ond fe fyddwn ni. Felly, yn fy maniffesto fe fydd seremoni arbennig o fawreddog yn cael ei threfnu i atgyfnerthu Deddfau Uno Harri'r 8fed. A'r wobr fawr fydd cael bod yn rhan gyflawn o Loegr. Fe fydd Wales yn cael ei ddileu, ac **fe fyddwn ni i gyd yn cael bod yn Saeson.** Uchafbwynt y maniffesto.

Gyda llaw gan bod y maniffesto yma yn cael ei gyhoeddi yn ystod pla'r Covid, fe fydd un cymal pwysig dros ben a gofyn i bawb ufuddhau iddo. **Dim ond y rheiny dros eu 70 oed fydd yn cael eu gadael mas.** Bydd rhaid i bawb arall aros yn gaeth i'w trigfannau tan i'r holl beth fod drosodd.

Cofier mai **torri pob addewid** a gweithredu yn hollol i'r gwrthwyneb yw nodwedd amlyca' pob maniffesto.

# ADOLYGIAD

## *Theatr y Gymraes: Byth Rhy Hwyr, Mefus, Mab* gan Sera Moore Williams (Honno, 2020, £10.99)

Nôl yn 1999 mewn rhifyn arbennig o Taliesin a oedd yn craffu'n benodol ar y ddrama, cododd Gwenan M. Roberts y cwestiwn isod: 'Sawl dramodydd o ferch sy'n ymddangos ar y cwricwlwm?' Ei hateb bryd hynny – 'Dim un'. Dyma, felly, fynd ati i edrych ar faes llafur Drama Uwch Gyfrannol a Safon Uwch heddiw. Ac yr un yw'r ateb i gwestiwn Gwenan M. Roberts yn 2020. Nid yw'r darlun llawer yn fwy amrywiol ar y maes llafur Cymraeg iaith gyntaf nac ail iaith ychwaith er bod *Crash*, drama gan Sera Moore Williams, awdur y gyfrol dan sylw, yn ymddangos ar y maes llafur ail iaith. Dyma ofyn cwestiwn arall a gododd Roberts yn yr erthygl honno yn Taliesin: 'Ble mae llais y ferch yn ein theatr gyfoes? A oes, neu a fu, gan Gymru theatr ffeministaidd?' Mae'r gyfrol hon yn cyflwyno un o'r lleisiau hynny.

Ceir dwy ran i'r gyfrol hon, y cyd-destun sy'n mynnu'r sylw yn y rhan gyntaf tra bod y testunau eu hunain sef *Byth Rhy Hwyr* (1992), *Mefus* (1998) a *Mab* (2001) yn ffurfio'r ail ran. Yn y tair pennod cyd-destunol, defnyddia Moore Williams bob un o'r dramâu yn eu tro fel lens i gyflwyno cyd-destun sefydlu cwmni theatr Y Gymraes 1992–2001, cwmni a sefydlodd gyda'r awydd 'cryf ar y pryd i gyfathrebu fy hunaniaeth fel menyw, fel gwraig, fel mam a Chymraes.' Teimlai yn ystod y cyfnod dan sylw nad oedd ei llais hi fel gwraig, mam a menyw yn cael ei glywed yn enwedig yn Gymraeg. Mae pob un o ddramâu'r gyfrol yn deillio o'r ymdeimlad hwnnw.

*Byth Rhy Hwyr* sy'n cynnig lens i'r bennod gyntaf sef drama am gymeriadau 'rhwng' bydoedd. Yn y ddrama hon mae creaduriaid o blaned arall yn cyflwyno canfyddiadau eu hymchwil i fywydau menywod Cymru. Mae clywed argraffiadau oeraidd y cymeriadau hyn yn sobri rhywun i weld byd Cymraeg o bersbectif rhywun o'r tu allan. Yn yr ail bennod, *Mefus* yw'r ddrama sy'n cael ei harchwilio a'i defnyddio fel sbardun i fyfyrion ar ysgrifennu gan fenywod yn gyffredinol ynghyd â'r broses o ysgrifennu'r ddrama hon. Byddai modd dadlau bod teitl y bennod hon ychydig yn gamarweiniol. Er bod yma sôn am rai gweithiau gan fenywod eraill, mae'r bennod yn craffu'n benodol ar sbardun a phroses ysgrifennu'r ddrama benodol hon gan Moore Williams, nid bod hynny'n wendid, ond mi oedd ychydig yn annisgwyl o ystyried teitl y bennod. Trydedd ddrama'r gyfrol, *Mab*, drama gomisiwn Eisteddfod Genedlaethol 2001 yw ffocws y bennod nesaf. Yma, archwilia Moore Williams y broses o greu'r ddrama hon ynghyd â pherthynas cynulleidfya Gymreig â chynrychiadau o'r testun. Mae'r ddrama hon yn amlygu llinyn cyswllt rhwng pob un o'r gweithiau a geir yn y gyfrol, sef yr awydd i roi llais neu lwyfan i leisiau na fyddent fel arfer yn cael eu clywed ar y llwyfan, ac yn sicr ddim ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol. Clywn lais mam a bachgen ifanc y tro hwn, lleisiau sy'n deillio o stori

wir teulu Nicholas Barclay o Austin Texas a ddiffannodd heb air o esboniad ac sydd ar goll hyd heddiw a Frédéric Bourdin a ymddangosodd i hawlio mai ef oedd ei mab colledig. Ynghyd â stori wir Barclay, cyfrannodd brofiadau'r dramodydd ei hun at y ddrama wedi cyfnod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ddifreintiedig yn ardal Ceredigion yn rhinwedd ei swydd gyda'r cwmni theatr mewn addysg Arad Goch. Mae strwythur y ddrama hon yn chwareus ac yn heriol ac mae'n cynnig blas o'r modd yr aeth Moore Williams ati i: '[g]reu pont rhwng yr amgen a'r dramataidd trwy gynnig profiad cymharol gyfarwydd i gynulleidfya gan ddefnyddio deialog ac iaith gyfarwydd, tra'n ceisio disodli ffurf dramataidd.' Nid oedd hynny bob amser yn hawdd gan ei bod yn dadlau bod chwaeth theatrig Cymry Cymraeg yn aml yn fwy ceidwadol na chwaeth cynulleidfaoedd rhai o'i chyfoedion yn Llundain ar y pryd, er enghraifft. Tybed a gafodd Martin Crimp neu Sarah Kane alwad ffôn gan aelod o'r gynulleidfya nad oedd y dramodydd yn ei adnabod, y diwrnod wedi gwyllo un o'u dramâu i ddweud na fyddai'r person hwnnw yn mentro ar gyfyl theatr byth eto yn sgil cael eu pechu gan iaith gref eu dramâu?

Yng nghyflwyniad Gareth Evans yn y gyfrol hon i ail ddrama'r gyfrol, *Mefus*, mae'n nodi; 'Credaf mai dyma'r tro cyntaf i gasgliad o ddramâu gan ddramodwraig gael ei gyhoeddi yn Gymraeg.' Gwn fod casgliadau o ddramâu o unrhyw fath yn brin yn Gymraeg, ond mae'r ffaith y bu'n rhaid aros tan 2020 i gael casgliad gan ddramodydd benywaidd yn rhyfeddol. Ond mi oedd hi'n sicr yn werth aros amdani. Dyma ddramodydd a fynnodd ei bod yn rhoi llwyfan i'r di-lais, a'r unig ffordd o wneud hynny bryd hynny (a nawr hefyd, o bosibl) oedd sefydlu ei chwmmi theatr ei hun. Mae'r gyfrol hon yn fwy na chasgliad o ddramâu, mae'n gofnod o safbwynt y sylfaenydd a'r dramodydd/gyfarwyddwr sy'n cyflwyno cyd-destun creu'r chwmmi a sbardun a'r cyd-destun y tu ôl i'r tair drama a geir yn y gyfrol ynghyd â blas o'r ymateb a fu iddynt. Gobeithiaf yn fawr y bydd y gyfrol hon yn sbardun i gyhoeddi gweithiau dramodwyr benywaidd eraill megis Branwen Cennard, Menna Elfyn, Ffion Emlyn, Mari Gwilym, Mair Gruffydd, Eirwen Hopkins, Geinor Jones, Valmai Jones, Gwen Lasarus, Miriam Llywelyn, Sharon Morgan, Mari Rhian Owen, Sian Summers, Angharad Tomos ac Iola Ynyr, sef y rhai sy'n cael eu henwi yn rhagair y gyfrol a oedd yn ysgrifennu rhwng 1992–2001. Erbyn hyn, mae eraill y gallwn ni eu hychwanegu at y rhestr; Manon Steffan Ros, Caryl Lewis, Gwyneth Glyn, Manon Wyn Williams, Heiddwen Tomos, Melangell Dolma, Mared Roberts er mwyn enwi ond rhai. Gobeithio y bydd hi hefyd yn ysgytwad i gyrff megis CBAC i gynnwys lleisiau dramodwyr benywaidd ar y maes llafur Drama a Chymraeg yng Nghymru.

# Sn<sub>o</sub>gi<sub>o</sub> Trwy S<sub>a</sub>n<sub>a</sub>u

KANDACE SIOBHAN WALKER A JUDITH MUSKER TURNER

*Disgrifiodd Menna Elfyn y profiad o ddarllen cerdd mewn cyfieithiad fel cael 'cusan trwy hances'. Wel, hoffem ni yn y Stamp weld cyfeillachu a swsio lot amlach yn digwydd rhwng 'dwy' lenyddiaeth Cymru, felly dyma herio llenorion Cymraeg eu hiaith i geisio mynd ati i gynhyrchu cyfieithiadau o waith llenorion cyfoes sy'n ysgrifennu yn y Saesneg, gan archwilio'r berthynas rhwng llenyddiaeth y ddwy iaith, tra'n arbrofi efo'r gelfyddyd o gyfieithu.*

*Yn y rhifyn hwn, cerdd o waith Kandace Siobhan Walker sydd wedi ei chyfieithu gan Judith Musker Turner. Dyma rannu cyfieithiad Judith, yna holi rhai cwestiynau i Kandace am y gwaith.*

## POP CELF

Dysgu gyrru'n droednoeth fel ffordd o oroesi.

Mae jîns glas yn gwneud iti deimlo'n anonest blewog tafodrydd. Mae stimming yn union fel cerdded y palmant yn y nos yn aros am dy hoff linell

yn dy hoff olygfa. Bob tro rwy'ti'n crïo rwy'ti'n teimlo bron yn ddigon dynol i yfed glaw neu i gnoi cân siwgr gwyrdd yn y gwres fel y menywod persawrus t'isio bod yn cusanu yn seddau cefn dieithriaid.

'Dyn ni ddim yn ennill unrhyw dllysau pencampwriaeth ond mae'n gyfareddol bob tro rwy'ti'n dweud celwydd newydd.

Rwy'ti'n fyw nawr ond arferai hwn fod yn iard chwarae i mi.

Ddim yn siŵr a yw e'n meddwl dy fod di'n barabllus neu jyst yn uchel. Wrth y cownter fisas

yn ceisio esbonio be' ti'n meddwl pan fyddi di'n dweud ei fod yn rhoi glas.

Cerdda'n araf, pen i lawr, wyneb yn y dorf. Teimlwn fel hud a lledrith pan 'dyn ni'n actio: dawnsiwch, dawnsiwch.

Be allai fod yn waeth na chael dy wrthod? Gamp i chi holi'r lleuad a yw hi'n gwybod ei bod hi 'mond yn adlewyrchiad.



## Cwestiynau i Kandace:

*Sonia fwy am gefndir y gerdd 'ART POP'*

Mae 'ART POP' yn fyfyrddod ar awtistiaeth, prosesu synhwyrdd, a MYGYDU. "Mygydu" yw'r broses o ddynwared ac atal ymddygiad er mwyn ymddangos yn NIWRO-NODWEDDIADOL, ac i nifer o bobl awtistaidd mae'n ymarfer blinedig. Y tensiwn rhwng ymddygiad cymdeithasol normadol, a NIWROWAHANIAETH ydi brif ysgogiant y gerdd.

*Pa waith sy'n dy ddylanwadu di? Barddoniaeth, celf, ffilmiau?*

Dwi wastad yn dychwelyd at waith Jericho Brown, Charles Simic a Lucille Clifton pan fydda i'n teimlo'n sownd. Dwi'n ailddarllen cerddi Clifton yn aml. Mae Surge Jay Bernard a Wayward Lives Sadiya Hartman yn cyflwyno ffyrdd diddorol ac anhygoel o ymdrin ag archifau mewn ffordd sy'n dynoli bywydau'r rhai sy'n ymddangos yn yr archif. Dwi'n dilyn sawl artist gweledol ac arlunydd ar Instagram, ac mae llawer o'r gwaith yn ail-greu celf glasurol gyda goddrychau Du. Rhaid dweud, un o fy hoff beintwyr yw [...], sydd a'i beintiadau abstract yn cyfleu atgofion trwy gyfrwng lliw. Tair ffilm ydw i'n eu hail wyllo o hyd yw Yi Yi, Princess Mononoke a Daughters of the Dust.

*Mae dy waith di (dy farddoniaeth a dy ysgrifau, i weld yn troedio llwybr rhwng y freuddwyd/synfyfyriad, a 'realiti'. Sut wyt ti'n gweithio'r syniad o ofod y freuddwyd/realiti'?*

Dwi'n meddwl fod gofod y freuddwyd, i mi, y ffordd fwyaf manwl gywir o ddarlunio'r hyn yr ydw i yn ei brofi fel realiti normal, ond sydd yn ymddangos i bobl eraill fel 'atypical'. Dwi'n tramwyo amgylchoedd cymdeithasol a synhwyrus fel person NIWRO-WAHANOL? Ac mae fy mywyd mewnol yn fwy hygyrch i mi na'r bywyd allanol, materol. Yn y gofod-breuddwyd, mae popeth yn gwneud synnwyr perffaith, er nad ydi o'n dilyn deddfau ffiseg, tra o fewn realiti, dwi wastad yn hwyr i'r parti. Mae synfyfyron a theimladau mor ymehangol a'r 'real', ond ryda ni'n cael ein dysgu mai'r byd ffisegol sydd bwysicaf. Ond dwi'n meddwl fod gan bawb y profiad mewnol 'ma sydd, iddyn nhw, mor bwysig â'r byd ffisegol, ac mae'n gyrru eu gweithredoedd llawn cymaint â ffactorau allanol. Ond ryda ni'n cael ein dysgu i'w fygu o, gan fethu a sylweddoli fod pawb arall yn gwneud yr un peth hefyd.

## *CYFIEITHU 'POP CELF' - profiad Judith*

Roedd cael y cyfle i gyfieithu un o gerddi Kandace Siobhan fel cael dewis losinen sgleiniog, liwgar i sugno arni am oriau. Mae ei cherddi'n llawn pentyrrau o ddelweddu llachar, tameidiog, sy'n creu caleidosgop o ystyr. Dewisais y gerdd hon o'r tair a anfonwyd i mi yn bennaf oherwydd fy mod i'n dwli ar y cwpled olaf:

What could be worse than social rejection? Dare you to  
ask the moon if she knows she's just a reflection.

Un her fawr i mi oedd ceisio cael gafael ar rai o'r cystrawennau cymhleth, a dod o hyd i ffordd i'w cyfieithu nad oedd yn rhy eiriog. Mae rhythmau'r Saesneg yn fwy ergydol na'r Gymraeg, felly roedd hyn yn ychwanegu at y sialens o gadw naws y gerdd, wrth gydnabod cymeriad gwahanol ac unigryw'r Gymraeg. Mae'r gerdd wreiddiol yn llawn odlau mewnol trawiadol sy'n cyfrannu at y rhythm, ac rwyf wedi ceisio defnyddio odlau mewn ffordd debyg yn fy nghyfieithiad i.

Fel gydag unrhyw gyfieithiad creadigol, roedd rhaid cyfaddawdu rhwng ail-greu'r rhythmau'n effeithiol a bod yn ffyddlon at yr ystyr. Gwrthsefais y demtasiwn i grwydro'n rhy bell o'r testun gwreiddiol felly - efallai fy mod i wedi bod yn rhy ffyddlon ar brydiau. Er hynny, roedd yna rai llinellau lle esgorodd y cyfieithiad ar ystyron newydd annisgwyl. Er enghraifft, rwy'n hoffi amwysedd ychwanegol y gair 'uchel' yn y llinell 'Ddim yn siŵr a yw e'n meddwl dy fod di'n barablus neu jyst yn uchel'. Y llinell wreiddiol yw 'Can't tell if he thinks you're talkative or just high'.

Fodd bynnag, yr her fwyaf oll oedd gwybod pryd i stopio. Gallwn fod wedi chwarae gyda'r geiriau fel darnau jig-so am byth, sydd wedi fy atgoffa nad oes un ateb cywir i gyfieithu, a dyna hwyl y peth.

# Cerdd: Rhys Trimble

*is the gwydr a phapeli marmor cylchfain cyswail mae arcedau; dufais ddi-ffurfiol o fforddau cyffwrdd a ddefnyddio*

**Wedi ymuno gyda'i gilydd ar gyfer mentrau o'r fath. Leinin dwy ochr y drysau hyn, sydd lleugylch am gael eu goleuni oddi uchod, yw'r risial mwyaf cain, fel bod yr arcêd yn ddinas, byd yn fach Esblygiad y siop adrannol o'r siop a oedd mewn arcedau. Egwyddor y siop adrannol: "Mae'r lloriau'n ffurfio un gofod. Gallant fod cymryd i mewn, fel petai, 'cipolwg Mae'r caffis wedi'u llenwi Gyda goleuni, gydag ysmygwyr; Mae'r theatrau dan eu sang Gyda gwylwyr siriol. Mae'r arcedau'n heidio Gyda gwyllni, gyda selogion, A pickpockets \ caru tu ôl i gefnau flaneurs**

*o fforddau cyffwrdd a ddefnyddio*

SYNMAN

SYNMAN

chwant

# ADOLYGIAD

## *Eiliad ac Einioes*

gan Casia Wiliam (Cyhoeddiadau Barddas, 2020, £5.95)

Dyma'r casgliad cyntaf o gerddi i oedolion gan Casia Wiliam, wedi iddi fod yn brysur yn ei rôl fel Bardd Plant Cymru. 35 cerdd sydd yma, wedi'u hysgrifennu mewn dull agos atoch a phersonol, ond ni olyga hyn fod pob cerdd wedi'i hysgrifennu o'i phrofiad hi; fe geir cerddi hefyd sy'n trafod digwyddiadau trychinebus, fel 'Seiclun Idai' a 'Cyhydros, cerdd i Jarrah Begum,' yn ogystal â cherdd i ddathlu penblwydd y GIG yn 70 oed.

Mae thema hunaniaeth hefyd yn codi drwy'r gyfrol hon. Fe'i gwelir yn 'Caffi' a 'Dileu', ac fe erys hon yn y cof fel un o oreuon y bardd, wrth iddi fyfyrion ynghylch sut y cafodd ei dileu mor ddisymwth, 'Rhywle rhwng y contraction olaf a'r geni...'. Mae ei byd wedi newid yn llwyr ac yn hytrach nag estyn beiro, mae hi bellach yn estyn bron, 'yn gwthio coetsh yn lle reidio beic, yn trafod Calpol yn lle straeon nos Sadwrn'. Ond eto, er ei bod yn teimlo bod yr hen 'hi' wedi diflannu, daw hefyd i'r sylweddoliad ei bod bellach yn 'gweld fy hun mor glir â haul ar bared'. Mae'n debyg y bydd sawl mam, os nad pob un, yn gallu uniaethu â'r teimladau hyn.

Ceir dwy gerdd arall sydd hefyd yn fynegiant o'i theimladau cymysg a gwrthgyferbyniol o fod yn fam. Mae 'Tisio chwarae efo fi, Mam?' a 'Cyfri' yn cyfleu'r euogrwydd a deimla, wrth gyfri'r oriau nes ei bod yn amser gwely ei phlentyn, ond ar yr un pryd, fe werthfawroga'r hyn sydd ganddi ac fe ddymuna i amser aros yn stond.

Yn ogystal â nifer o gerddi'n disgrifio ei phrofiadau personol hi, ceir hefyd gerddi sy'n cynnwys argyfyngau rhyngwladol, fel achos y ffoaduriaid, wrth iddi ysgrifennu amdanynt o safbwynt tu hwnt o ddynol. Dyma a geir yn 'Swigod', gyda'i theitl twyllodrus o hapus, ond sy'n hanes torcalonnus am ddyn ifanc o Swdan a ddisgynnodd i'w farwolaeth yn ystod cyrch mewnfudo yng Nghymru. Fe bletha'r bardd olygfa o blentyndod y dyn yn chwarae gyda swigod yn y sinc, â'i fywyd yn oedolyn, yn gweithio fel dyn glanhau ceir a'i 'ddwylo cras a'u creithiau wedi'u lapio'n dynn am y clwt, a'i ddyrnau'n ysu i lanhau ei hanes ei hun.' Yna, daw swyddogion mewnfudo yno'n annisgwyl ac 'mae'n rhedeg, y reddf i ddianc yn neidio allan o ffolderi'r co.'

Ysgrifennwyd 'Coridor' am deulu o Syria sydd bellach yn byw ym Mangor. Pan fyddai'r bomio'n digwydd yn Syria, byddai'r teulu'n arfer cuddio yn y coridor, am mai dyma oedd y lle mwyaf diogel, 'Mynd yno fel llygod pan ddôi rhuo'r rhyfel yn rhy agos at ein drws.' Yn y coridor y byddai'r cwlwm teuluol yn dod yn gryfach, gan roi 'lliw neisiach ar leisiau'r nos,' ond fel y dywed is-deitl y gerdd, nid yw'r atgofion hyn yn pylu, a

'gefn nos, pan ddaw sgrech tylluan neu glec o gefn car

gwelwn fod y bomiau'n ffrwydro o hyd

yng nghoridor ei gof.'

Dull storiol sydd i'r gerdd hon, ac mae'n fwy effeithiol o'r herwydd, ac fel darllenwyr, ni allwn ond dychmygu pa erchyllterau a welodd ac a glywodd y plentyn bach yma.

Y cyswllt dynol yw craidd y gyfrol hon ac mae empathi'r bardd yn cofleidio'r cyfan. Cwmpasa'r cerddi rychwant eang o olygfeydd rhwng gwahanol berthnasau; rhwng dau gariad, gŵr a gwraig, y rhiant a'r plentyn, yr wyres a'i Nain. Credaf ei bod ar ei gorau yn y cerddi hynny sy'n trafod colled y cyswllt hwnnw, boed yn farwolaeth, yn gollu cyfle neu'n gollu hunaniaeth. Fe wnes i fwynhau'r cerddi o'i safbwynt fel mam, ac mae wir angen mwy o gerddi yn y Gymraeg sy'n trafod hyn.

Gwerthfawroga's 'Amheuaeth' a 'Brwnt' yn y casgliad hwn hefyd. Cerddi sy'n canolbwyntio ar ochr dywyll y natur ddynol yw'r rhain, a theimlaf y gallai'r bardd fod wedi cynnwys mwy fel hyn, am eu bod yn wrthgyferbyniad llwyr i'r darnau sensitif a theimladwy sy'n britho'r gyfrol.

Egyr cyflwyniad Casia Wiliam i'w chyfrol gyda'r geiriau canlynol: 'Er 'mod i'n barddoni ers blynyddoedd maith, mae wedi cymryd cryn dipyn o amser i mi deimlo'n ddigon hyderus i rannu rhai o'm cerddi yn gyhoeddus, fel hyn, ar ddu a gwyn.' Mae'n ddiddorol darllen am y diffyg hyder a deimla cyn rhannu ei cherddi. Dyma gyfrol gadarn a hyderus, sydd eto'n deimladwy ac yn llawn emosiwn ar yr un pryd. Mynnwch gopi.

# CYFARWYDDIADAU LLWYFAN



*[our lone character is standing in the courtyard of a petrol station, speaking with purpose to no-one in particular. Does neb yn gwranddo, ond mae'n actio fel petai'n perfformio degree show yn y Taliesin i gynulleidfa o ddeg]*

Dwi'n hoffi'r ffordd ma dynion yn edrych arna i pan dwi'n gyrru fan fawr wen.

Dy'n nhw ddim yn gwybod fy mod i ar fin cael panic attack bob tro ma rhaid parcio, a bo' chi methu symud y sêd bellach ymlaen, er bo' traed fi braidd yn cyrraedd y clutch. Dwi'n hoffi edrych i lawr arnyn nhw o'm mhalas symudol. Dwi'n hoffi waco'r hazards 'mlaen a llwytho'r van. Gyrru e rownd fel hysbyseb Europcar. Rolio lan llewys ac iwso cyhyrau 'dwi erioed wedi galw arnynt cyn nawr. Pigo lan ar radio ffrangeg, sgwrsys ffyslyd a chyfarwydd, pan fi'n stuck mewn traffic jam ar bwys y Port of Dover. Falle bach o Belgian Pop os fi'n lwcus.

Dwi'n teimlo'n bwerus, annisgwyl, yn rhydd. **If I were a Netflix film I'd be in the Strong Female Lead category, the Takes No Shit category, the Welsh Woman at the Wheel category. You get the picture.**

---

*[droning from a lectern in a lecture theatre]*

In the words of John Berger, “Men act and women appear. Men look at women. Women watch themselves being looked at...she turns herself into an object - and most particularly an object of vision: a sight.”

Ma Berger yn enwog am sgwennu'r testun hwn wrth orlifo allan o trouser pant tynn tynn, mewn crys denim glas yr un lliw a'i lygaid.

---

*[wedi'i floeddio dros jazz cyflym, mewn bar sydd ond yn gwerthu Whisky Sours. Dwyt ti ddim yn yfed, ond 'dwi 'di cael hen ddigon i'r ddwy ohonom ni.]*

Es i mas 'da merch o wlad Groeg cwpl o flynyddoedd yn ôl. Ar ôl gadael restaurant un noson, gerddon ni ar bwys yr harbwr, yn dal dwylo a chusanu. Ar unwaith, ymyrrwyd ar y foment gan ddyn yn gofyn os oedd 'room for one more', a'u ffrindie'n chwerthin. Dwi'n siŵr odd digon o sŵn o'n hamgylch ar y pryd, yng nghanol dinas brysur ar nos wener, ond odd popeth yn teimlo mor dawel ar ôl i'w lais...[mae Whisky Sour arall yn cyrraedd - dwi'n cymryd sip heb edrych ac mae'r gwelltyn yn procio'n llygad]... odd hi'n noson hynod oer a odd hi'n gwisgo cot enfawr cheetah print, rili cŵl, proper charity shop vintage - more Cowbridge Cancer Research than Swansea Cats Protection, **which is nice but a different vibe isn't it.** Anyway, on i mas da'r fenyw anhygoel hon, a chafon ni noson mor lyfli cyn iddyn nhw droi lan, ond yr oll o'n i eisiau yn y foment honno odd i fod yn hollol anweladwy, i jest diflannu allan o'r golwg, ti'n gwbo? Fel byse fe jest yn haws os...

God, ma'r band yma'n terrible. Fel, really, truly awful. Sain cofio nhw'n chware fel hyn yn Greenman. Ti'n siwr ti ddim eisiau drink? O na, wrth gwrs, nes i anghofio am yr AA thing. So ma hwnna, fel, for life? Reit. Sori. **We'll just go for ice cream next time.**

---

*[ar y traeth yn yr haf, 1-2mm o stybl du ar hyd fy nghoesau. Dwi'n bwyta dau hufen iâ - prynais un i ti ond yna nest ti atgoffa fi bod ti'n lactose intolerant. Dwi hefyd yn lactose intolerant ond sdim unrhywle ma angen i fi fod ar ôl hyn]*

Stopiais i shafo 'nghoesau am tua blwyddyn. Ma' croen fi'n teimlo'n ddieithr os yw e'n hollol esmwyth. Dwi wastad di cal blanced cysurus o flew ar draws fy nghorff, yn hoffi smwtho gwallau ar fy mraich wrth bryderu dros bethe trivial; os wnaiff unrhyw un ddod i 'mharti penblwydd, os dyle fi bleacho 'ngwallt, os oes shwt beth â chyfiawnder pan ma'r byd mor - oes na tai bach fan hyn? Ti'n gwbo'? Rhaid bo' nhw'n cal loo.

'Sdim signs unrhywle.

**Shit.**

**Nia Evans**



Un diferyn. Dau ddiferyn. Tri diferyn. Pam fod pethau'n treiglo ar ôl 'dau'? Pedwar diferyn. Pum diferyn. Enw unigol ar ôl rhif yn Gymraeg. Chwe diferyn. A'r nesaf yn mynd i lawr ei chefn. Ei chefn...ei chluniau...ei choesau. Treigladd laes ar ôl 'ei' benywaidd. Mae ei choesau yn sgrechian; sgrech, sgrech, sgrech. Ei chluniau'n gwrthio. Ei chefn yn wlyb. Saith diferyn. Oes 'na rywun yn gweld pa mor goch ydy ei gwyneb hi? Wyth diferyn. Dwylo'n gafael ond yn llithro, llithro, llithro. Traed yn dyrnu, wedi ffendio eu rhythm; yn martsio efo'r curiad yn ei chlustiau, yn taro 'tha drwm, yn chwalu curiadau'r caneuon.

Serthháu. Dim gwynt. Gwallt yn glynu ac yn cosi, cosi, cosi. Tynhau ei bol, gwrthio ei phen-ôl yn ôl.

“Aguanta. Falta poco.”

Mae hi'n teimlo'n un. Un fel – un

“...un dos, un dos, un dos. Últimos metros.”

Mae hi'n ei weld yn y pellter mor glir, y copa, yn ei thynnu tuag ato. Llwnc yn llosgi, llosgi, llosgi. Aer i mewn, aer allan, aer i mewn, aer allan. Eisiau dŵr. To bach! Diferyn arall, yn llwybreiddio ei ffordd i mewn i'w llygaid; aaa! Naw diferyn.

Ac ar ôl cyrraedd: Ymollwng. Eistedd yn ôl, sythu ei chefn, sbio i fyny. 'Fyny' efo 'y' er bod o'n swnio 'tha 'u'. ¿Porqué? ¿No sé! Llowcio llond ysgyfaint o ...awyr iach?

“Posición dos.”

Gwyro. Cyflymu. Mynd yn gyflymach. Ta mynd yn gynt? Oes 'na wahaniaeth? Gwibio, gwibio, gwibio. Sgwyddau i lawr, llacio'r breichiau. Tsiaen yn troelli, troelli, troelli. Olwyn yn troi, troi, troi. Dim gwynt. Gwallt yn glynu ac yn cosi cosi cosi. Deg diferyn.

Arafu. Arafu i eiriau Enrique...'Sa ti'n dawnsio efo fi 'swn i'n gofyn i ti ddawnsio? Tynnu pwysau. Oes 'na ddwy 'n' yn 'tynnu'? Llacio'r strapiau.

“Traguito de agua. Recuperamos”

Arafu. Mae ei choesau hi'n diolch, ei chrys-t yn batsys tywyll. Mae hi'n sychu ei dwylo, gwlychu ei cheg, yn gwenu ar y lleill o'i chwmpas.

Ac wrth gamu i ffwrdd i ymestyn ei chyhyrau, a'r gwaed yn dal i chwyrlio gyda'r adrenalín o amgylch ei chorff, mae'r olwyn fetel yn dod i stop ac mae ei phen hithau hefyd yn stopio...sbinio.

Marian Brosschot

Mewn nofel sy'n doreth o ddelweddau ac ôl dylanwad bydoedd celf, cerddoriaeth a thu hwnt, grym llais Tu Ôl i'r Awyr sy'n aros, yn fwy na dim, wedi cau'r clawr cefn. Neu grym lleisiau, y dylwn ei ddweud. Lleisiau Anest a Deian sy'n agor byd y nofel i ni, a thrwy eu safbwyntiau unigol, ategol hwy y profwn fywyd dau oedolyn ifanc yng ngogledd Cymru gyfoes; dau lais tra gwahanol sy'n asio trwy eu profiadau o afiechyd meddwl, o heriau dyddiol bywyd ysgol a theulu, a deffroadau at gelf, at gariad, at golled. Nofel am ganfod hunaniaeth a hunanfynegiant yw hon yn ei hanfod – maes sawl nofel i oedolion ifanc, wrth reswm – ond mae hi'n rhy eang ei gweledigaeth a'i huchelgais i osod culni categori arni. Mae'n lenyddol dafodieithol obeithol ddinistriol gymysg oll i gyd. Ac os yw'n waith sy'n mynd i'r afael â thranc afiechyd meddwl, mae ei wir ddiddordeb yn yr hyn sydd y 'tu ôl' a thu hwnt i unrhyw brofiad unigol ohono, i'r hyn a agorir trwy gydnabod profiad, rhannu teimlad.

Ynghyd â chryfder lleisiau Anest a Deian un o nodweddion mwyaf trawiadol y darllen yw'r lleisiau ymwthiol hynny – lleisiau dinistrol o'u mewn – sy'n mynnu eu lle yn y naratif ac sy'n ei wyro'n aml i fannau tywyll. Rhwygir llyf ymwybod Deian gan restrau o ansoddeiriau sydd wedi magu o'u mewnoli grym mantra dinistriol:

gwirion afiach pathetig gwan fflag sensitif tawel gwahanol boring

Dro ar ôl tro daw llyf o'r fath i dorri ar draws unrhyw dawelwch meddwl: profiad anodd i'w ddarllen – yn llythrennol felly, cymaint yr ailadroddir hwy trwy'r nofel – ond sy'n fynegiant triw hefyd o'r rhigolau meddyliol hynny sydd mor anodd eu torri a'u trechu. Fel Deian ei hun, ni all y darllenydd ddianc rhagddynt a, chwedl Anest: 'tin goro deud run peth i bren chdi eto. a eto. a eto.' Penodol boenus hefyd yw'r ailadrodd hwnnw o 'gwahanol', yn union wrth i'r nofel archwilio'r unigedd a'r arwahanwydd a ranna pob cymeriad. Os yw hyn i gyd yn swnio'n drwm – a does dim gwadu nac osgoi hynny ar adegau – cryfder y nofel o'i phennod agoriadol amrwd ymlaen yw ei gallu i gyfleu gwewyr mewn ffordd mor ddarllenadwy, tyner ac, yn aml, doniol. Daw'r ysgafnder hwn yn bennaf trwy lais Anest, campwaith y nofel ym mri ei thafodiaith a'i textspeak, a'r ddealltwriaeth emosiynol a gynigia bron yn ddiarwybod iddi hi ei hun:

wiyd tho. wiyd. fatha ma calon fi newy agor fyny a dangos calon bach arall i fewn ynddo fo neu rw bath trippy fela. fatha un o russian dolls creepy. fatha ma di bod yna hyd bywyd fi a odd genna fi ddim ffocin idea.

Gwychder Anest, fel y nofel drwyddi draw, yw'r modd y cynigia ei chymeriad iaith ar gyfer profiad; iaith gyfoes, gyfarwydd sydd eto yn

arbrofi a datblygu a llithro fel hi ei hun. Iaith sydd ei hangen arnom. Hyd yn oed ar eu craffaf, mae cyfraniadau Anest a Deian fel ei gilydd yn frith o gwestiynu, o 'ella' a 'idk. dwi jyst ddim yn gwbod ia. dwi jyst ddim.' Mae'n fynegiant o betrusder poenus ieuencid, ond mae rhyddhad arbennig yn perthyn hefyd i gydnabyddiaeth o'r fath, a rhodd yw cael awdur ifanc â'r hyder i fynegi mor huawdl y fath ansicrwydd.

Mae lloches, boed hynny'n llythrennol neu'n drosiadol, yn ganolog i'r stori ac i'r hyn a gynigia Anest a Deian i'w gilydd. Trwy fyfyrdodau a dylanwad Deian yn enwedig daw celfyddyd ei hun yn lloches emosiynol, a darlunio a cherddoriaeth yn fynegiant i'r hyn sydd tu hwnt i gyfyngiadau geiriau. Dyfynna Deian yn aml o lythyrau'r artist Van Gogh, ac mae'n braf gosod rhain ochr yn ochr â sgysiau Snapchat y ddau ffrind, yn gyfuniad o natur barhaus a darfodus geiriau:

She & I are two unhappy people who keep each other company and share a burden, and that is precisely why unhappiness is making way for happiness, and the unbearable is becoming bearable.


Deillia rhai o ddarnau tlysaf a mwyaf teimladwy y llyfr o'r myfyrdodau yma: meddai Deian, er enghraifft, o wrando ar Anest yn canu:

Dwi'n meddwl ma'n debyg i'w llais hi pan ma hi'n siarad – fel y gorwel – ond ma fel petai'n peintio'r gorwel wrth iddi ganu, nid jyst ei lenwi fo.

Ond yma hefyd mae rhai o fannau gwan y llyfr, wrth i Deian lithro weithiau o fod yn gymeriad i fod yn gyfrwng i archwilio thema, ac o ymylu ar orbentyrru dylanwadau a chyffelybiaethau. Mae cydbwysedd y llyfr yn sigo rhyw ychydig yn yr ail hanner, ac mae angen datblygu pellach ar rai elfennau o'r stori y tu hwnt i'r berthynas ganolog. Ond ar y cyfan anodd yw gwarafun clod i waith mor hael ei weledigaeth, sy'n cynnig cymaint o ddelweddau – a thrwy hyn, adnoddau – ar gyfer profiadau nad oes yn aml iaith ddigonol ar eu cyfer. Daw'r dyfyniad enwog hwnnw o Middlemarch George Eliot i'r meddwl:

That element of tragedy which lies in the very fact of frequency, has not yet wrought itself into the coarse emotion of mankind; and perhaps our frames could hardly bear much of it. If we had a keen vision and feeling of all ordinary human life, it would be like hearing the grass grow and the squirrel's heart beat, and we should die of that roar which lies on the other side of silence.

Ymgais deimladwy a diffuant yw Tu Ôl i'r Awyr i gyfleu llawnder ein bywydau emosiynol ac, mewn nofel debut awdur arbennig, i dorri ychydig ar y tawelwch.



Yr hanesydd nodedig Prys Morgan sy'n sgwrsio â'r Stamp am ei ddiddordeb oesol mewn arlunio, a'i brofiadau artistig ar draws y byd.

WELE ECSGLIWSIF  
RHYNGWLADOL



**Y Stamp:** Isie holi chi o'n i le wnath y diddordeb mewn celf, mewn arlunio, ddachre?

Ma'n rhaid bod e yn y gwa'd achos un o'r llunie, o'r photos cynta o'dd wedi'i dynnu ohono'i gan berthnase, fowr mwy na babi yn yr ardd yn blentyn bach dwy flwydd oed yn Radyr, photo bychan, bychan Kodak ac mae'n amlwg bod darn o bapur gen i a pensl. Pan o'n i'n blentyn o'n i bob amser yn tynnu llun gyda 'nhafod fyl 'na *(yn hwpo'i dafod mas wrth ddweud hyn)*, yn ôl beth ma pobol yn dweud 'tho'i. Mae'n amlwg bo fi'n hoff o dynnu llunie. Wi ddim yn gallu cofio amser nad o'n i ddim yn sgriblan, neu'n dwllan 'te, llunie o bob math.

O'n i bob amser yn gofyn i'n rhieni a fydde'n bosibl i mi fynd i ysgol gelf i ddysgu celfyddyd ac o'n nhw'n dweud, 'O na – do's dim digon o sicrwydd gyrfa gyda celfyddyd: y'n ni ddim yn meddwl bo chi'n ddigon da – dim ond amatyr fyddwch chi byth. O's dim bara menyn mewn celfyddyd.' O'n nhw wedi cael eu codi mewn byd ansicr iawn yn y dauddege a'r tridege lle o'dd diweithdra cant y cant mewn rhai manne fel Rhymni yn Shir Fynwy lle o'dd Mam yn dysgu Cymra'g yn yr ysgol ac o'dd y syniad gyda nhw bod raid i chi ga'l ryw swydd broffesiynol, fel bod yn gyfreithwr neu rwbeth saff fel 'na, a neud celfyddyd fel hobi. Ac felly bu raid i fi dderbyn, o'n i'n ddigon meddal fel cymeriad, wi ddim yn gymeriad cryf iawn, un gwan ydw i yn y bôn yn rhoi miwn i berswâd pobol ac felly mi wnes i broffesiwn fel academig wedyn 'ny. O'n i ddim yn ca'l gwaith academic yn anodd. I fi ar hyd fy oes ma celfyddyd wedi bod yn hobi.

Ond wi'n gallu cofio pan es i neud gwasaneth milwrol, o'dd rhan fwya o'r ddwy flynedd orfodol yn Llundon. O'n i'n byw mewn gwesty yn South Kensington. O'n i'n gorffen yn gwersi Rwsieg yn Russell Square am bedwar y prynhawn. O'dd dim dysgu ar ôl pedwar. Ac felly o'dd hyn yn rhoi dwy awr wostod bob dydd i chi i fynd i weld oriele celf. Ac o'dd hynny yn agoriad llygad i mi. O'dd ca'l byw yn Llundon, ca'l rhyddid, o'ch chi'm yn gorffod gneud dim. O'ch chi ddim yn gorffod byw mewn iwniform, mewn lifrai. Ac o'dd ych bwyd, popeth yn ca'l ei roi i chi am ddim. Ac o'n i'n rhydd felly i fynd i lot fawr o oriele celf. Ac rwy'n credu bo fi wedi bod ym mhob un ohonyn nhw yn ddiethriad mwy neu lai. Nid jyst y National Gallery ond yr oriele bach masnachol yn Llundon. Dy'n nhw ddim yn bod nawr lot ohonyn nhw. Ond mi ddes i nabod yr oriele celf yn dda iawn. Ac fel o'dd hi'n digwdd o'dd nifer o'r bechgyn oedd yn y llu awyr â diddordeb mawr mewn celfyddyd ac yn paentio'u hunen. Ac o'n i'n meddwl 'Os gall bechgyn erill baentio alla i baentio'.

Dyna o'dd y cyfnod lle y datblyges i'n llygad. O'dd yn llygad i heb 'i addysgu yn blentyn ysgol. O'dd mynd i Lunden ac o'dd e fel 'sech chi'n neud cwrs anrhydedd mewn history of art and aesthetics am ddwy awr cyn mynd nôl i ga'l ych cino nos am wech drw fynd i oriele a gweld yr holl arddangosfeydd 'ma. O'dd cymint o amrywieth. O'dd hyn yn addysg ryfeddol i mi. Dyna ddatblygodd y syniad o ddachre deall beth o'dd yn gneud celfyddyd dda: y gwanieth rhwng celfyddyd amatyr sâl a celfyddyd dda gan ryw bobol broffesiynol fel Picasso.



**Felly yn y cyfnod yna y dethoch chi i nabod ych hoff artistied chi a dachre datblygu ych arddull ych hunan?**

O'n i'n fwy eang yn y cyfnod yna: y'ch chi'n datblygu yn berson rownd y deunaw o'd, peder ar bymtheg. O'n i'n llawer mwy agored i hoffi celfyddyd fodryn iawn na fydden i ddim yn ei hoffi fe lot heddi falle, pethe haniaethol er enghraifft. Wi'n cofio mynd i arddangosfa gan Merlyn Evans, bachgen o Ga'rddydd o'dd yn byw yn Llundun. Dyw e eriod wedi ca'l 'i ystyried yn un o fawrion celfyddyd Cymru ond o'dd e yn avant garde iawn yn ei ddydd yn gneud llunie cwblwl haniaethol a jyst paent du ar ganfas gwyn. O'n nhw ddim yn bethe hawdd iawn i ga'l yn ych tŷ. O'n nhw'n stark iawn. Cigynôth fel y'n ni'n gweud yn Cwm Tawe, nid cignoeth. A wi'n cofio hoffi'r llunie 'ma ond wi ddim yn credu y bydden i'n hoffi nhw heddi.

**O's 'na gyfnod wedi bod pan y'ch chi'n arlunio lot?**

O's wrth gwrs: wedi i fi ymddeol. Pan o'n i'n gwitho, o'dd dyn yn ca'l ei gadw yn itha prysur drw'r amser yn ymchwilio a mynd i lyfrgellodd a paratoi darlithie ac yn y bla'n ac o'dd dim o'r ynni gen i. Ond unwaith o'n i wedi ymddeol yn chwedeg pump o'dd y meddylfryd gyda fi i fynd i neud rhwbeth. A wedodd George Little wrtho i y bydde fe'n gyfleus i rywun oedd yn 'Sunday painter' chwedl ynte fel finne ddefnyddio 'clean paints', paent acrylig. 'I'll give you lessons,' medde fe. O'n i'n ffrindie mowr gyda George a Carolyn achos o'n nhw'n arlunwyr proffesiynol a hefyd o'dd George ym 1976 wedi 'mherwadwio i fynd lawr i Caswell i nofio.

Felly o'n i'n cwrdd â George bob dydd am hanner awr wedi wyth y bore cyn bo fi'n mynd miwn i'r coleg nôl yn 1976 pan ddechreues i'r nonsens 'ma o fynd miwn i'r môr bob dydd. Ac o'n i wostod yn siarad am gelfyddyd gyda George. Hefyd o'dd bachgen o'dd yn dysgu etching ac engraving o'r enw Arthur Charlton, bachgen o Ogledd Lloegr ac o'dd Arthur yn dysgu bob math o bethe fel lithography ac yn y bla'n yn y coleg celfyddyd yn Abertawe.

Pan o'ch chi'n mynd mewn i'r caban i fynd mewn i'r dŵr, o'dd y ddou arlunydd 'ma yn barod iawn i siarad am gelfyddyd a technege lithographi ac o'n i'n dangos y sgetshys ac o'n nhw'n ffindo beie arnyn nhw. A gweud bod y persbectif yn anghywir a sut o'dd cywiro perspectif. Ac wedi i mi ymddeol, roedd George yn gweud wrtha i y bydde fe'n rhoi gwersi i fi – a mwy neu lai o'n i'n gorfod ailddysgu – gwersi celfyddyd fel pe tawn i'n fyfyrwr mewn coleg celf.

**Be chi'n golygu wrth ailddysgu?**

Dysgu o'r dachre ffor o'dd doddi lliwie ar ganfas achos bo chi'n defnyddio ffor newydd o baent, acrylig. Er bod e'n edrych yn hawdd, dyfrlliw yw'r

peth mwya anodd. Allwch chi ddim cywiro camsyned mewn dyfrliw. Mae gyment yn haws i gywiro acrylig i amatyr na dyfrliw. Os nad y'ch chi'n defnyddio gouache – ma modd cywiro gouache. Ond dyw hynny ddim yn ca'l ei styried yn ddyfrliw iawn ymhlith y Sison beth bynnag. Yn Ffrainc – ody.

Felly o'n i'n gorfod dysgu. O'dd George yn dangos i fi bod e gyment yn haws i dynnu llun mewn acrylig achos bo chi'n gallu cywiro'ch camsynied.

**Felly o'ch chi'n ca'l gwersi wythnosol?**

O'n i'n gofyn iddyn nhw ddod i ga'l coffi a thishen. 'Are we coming for coffee and cake or are we coming for a crit? What are we doing?'

'Oh crit,' medden i 'I have finished a painting.'

Ac o'n i'n doddi nhw lan ar y pentan neu'r ford ac o'n nhw'n sefyll nôl a gweud 'Hmm. There's something wrong there. The paint is too thick here, too thin there.' Neu 'the background is too like the foreground'. Pethe fel 'na.

**Chi'n sôn am nofio yn y môr bob dydd. Ydy hwnna yn ych ysbrydoli chi yn ych gwaith celf? Oes 'na berthynas rhwng y ddau beth?**

Fel rhan fwya o bobol amateur, wi'n ca'l tirlun yn llawer haws na dim byd arall i neud. Ma pob un sydd yn amateur – heb fawr o eithriade wi'n credu – yn gwobod bod tirlun yn lot haws i neud na llunie o bobol. A ma môr yn fwy anodd i neud na'r tir achos mae'n symud drw'r amser fel ma bode dynol yn symud. Ac felly wi'n ca'l e'n anodd iawn i neud pobol. Ac wrth gwrs ma'r arlunydd proffesiynol yn gallu galw model. Neu'ch gŵr neu'ch gwraig i ishte o'ch bla'n chi. Ond do's dim model gen i a wi'n goffo dychmygu. Gorffo treio cofio beth o'dd siap pobol a ma hwnna'n anodd iawn i neud. Ond wi ddim yn ca'l tirlun yn anodd i neud o gwblwl.

**A falle bod hwnna – bod cof mor wych gyda chi at fanylion hanesyddol...**

Wi ddim yn neud llun yn llwyr o gof. Wi wostod yn neud rhyw fath o fraslun.

**Chi ddim wedi mynd i neud life drawing 'te?**

Wi wedi bod unwaith yn Fflorens. O'dd parti o blant yn Shir Gyfyrrdin yn mynd gydag Alexander Talbot Rice, un o deulu Dinefwr, i academi hynod o adweithiol, hen ffasiw iawn yn Fflorens. Ond o'n nhw moyn gwersi ar hanes celfyddyd. O'n i wedi ymddeol erbyn hynny. Ac fe ofynnwd i mi gan Alexander Talbot Rice a fydden i'n dod gyda nhw. O'dd y lle mwya godidog gyda ni i roi'r gwersi sef palas. O'dd rhyw dywysog a tywysoges wedi rhoi benthyg rhan o'r palas 'ma i fynd â'r plant 'ma yn ddwy ar bymtheg oed. Ac felly o'n i'n mynd i'r gwersi life drawing fel bonus. Yn ishte yn y cornel yn paentio'r ferch 'ma ac o'n i'n cael e'n anodd iawn.

Treio gwneud person noethlymun a neud e yn gwbl gywir. O'ch chi fod i neud e mor ffotograffig ag y gallech chi. O'n i'n ca'l e'n waith caled caled iawn mewn gwirionedd.

Dyna'r unig dro i fi fod mewn gwersi mewn academi gelf o'dd yn Fflorens. Gyda'r bobol adweithiol, hen ffasiwn iawn yma. Ond o'dd e'n ddisgybleth. Mae mor hawdd ishte o fla'n darn o bapur yn dwdlo llun. Ond pan ma meistir tu cefn i chi yn gweud 'dyw'r ysgwydd 'na ddim yn iawn...' a neud hynny am wythnos. Neud un ffigur. Treio perffeithio. Un fenyw yn dod bob dydd. Bore a phrynhawn.

### Felly sut o'ch chi ar y trip yna gyda nhw?

Mwya od, mwya damweiniol o'dd e. Oedd Ralph Griffiths sydd yn gyd-athro â fi yn Abertawe yn rhoi darlith yn St George's chapel i'r Windsor Society ar Syr Rhys ap Tomos. Ma baner Rhys ap Tomos yn y capel yn Windsor. Ac ar yr un diwrnod ro'dd Alexander Talbot Rice yn paentio llun o'r frenhines, yn cwpla darlun o'r frenhines, tamed bach yn chocolate boxy o'n i'n meddwl a bod yn onest. Dim y math o gelfyddyd o'n i'n hoffi ond y math o beth o'ch chi'n arfer gweld yn y Royal Academy nôl yn '56, '57. Alfred Munnings a bobol fel 'na. Beth bynnag o'dd y turnstiles yn mynd miwn i'r rhan braifet o'r castell wedi stico – wedi torri lawr, ac o'dd Ralph wedi dal tu allan yn methu mynd mewn ac o'dd Alexander wedi'i ddala tu fiwn yn ffili dod mas. A dyma nhw'n siarad ar draws y turnstiles a gweud beth o'n nhw'n neud a Ralph yn gweud bod e'n rhoi darlith ar Syr Rhys ap Tomos.

*'Oh he's an ancestor of mine. That's how I'm Talbot Rice. I'm a descendant of Rice ap Thomas. Oh I'm longing to go to Dinefwr,'* medde Alexander.

*'Oh I'll put you in touch with my friend Prys Morgan because he's trying to help the National Trust market Dinefwr.'*

A dyma'r turnstiles yn agor a dyma'n nhw'n gweud da bo chi wrth 'i gilydd. A dyna ni.

A'r peth nesa o'n i'n gwbod o'n i wedi ca'l cais gan Alexander i ddangos Castell Dinefwr iddo fe. Ac o'dd e wedi 'ny yn dweud 'tho i bod e'n awyddus i ddefnyddio rhyw arian o'dd e wedi ca'l gan rhyw filioneres o America. Mrs Mars o Mars Bars. O'n i ddim yn gwbod bod Mrs Mars yn bod. O'n i erio'd wedi meddwl taw person o'dd Mars o Mars Bars. O'dd hi 'di roid arian iddo fe oherwydd o'dd e wedi neud llun chocolate box – os gallwch chi dderbyn y pŷn – o Mrs Mars.

Ac o'dd syniad gydag Alexander o fynd â goreuon ysgolion Carfyrddin i Fflorens er mwyn eu dysgu nhw sut o'dd neud celfyddyd draddodiadol ddisgybledig. Achos o'dd e yn erbyn celfyddyd fodern. Sblish sblash sblosh jyst express yourself. Paentio fel chi moyn. Yn ôl ych mympwy. Ac o'dd e

yn erbyn hyn. Ac felly ofynnodd e i fi ddod gyda fe i farnu pa blentyn o'dd ore. A wedyn ofynnodd e i fi ddod gydag e i Fflorens i roi sgysie iddyn nhw ar hanes celfyddyd a mynd â nhw o gwmpas yr Uffizzi ac yn y bla'n. O'dd hwnna eto yn brofiad diddorol.

### Lwc a bendith bo Prys ddim wedi mynd yn Price ynte?

Wel yn Rhydychen o'n i yn ymal iawn yn Price Morgan. O'n nhw ddim yn gallu derbyn Prys o gwbl.

### Cwestiwn athronyddol falle: pam y'ch chi'n meddwl ych bo chi'n arlunio?

Achos bo fi'n teimlo bo raid i fi. Pan dw i'n gweld rhwbeth pleserus. O'dd Mam yn dweud bod rheidrydd ar ddyn yn emosiynol rwy'n credu. Wi'n para i ga'l yr un pleser nawr o baentio, o arlunio ag o'n i'n blentyn bach. Wi ddim yn paentio â nhafod nawr...

Wi'n hoff iawn o gyferbynnu wynebe. Cartŵnish mewn ffordd. Ambell waith wi'n troi'r llunie 'na yn olew, yn acrylig ond fel arfer ma nhw'n aros yn syniade yn ych pen chi o gyferbynnu dau wyneb.

### Pam y'ch chi'n hoffi cyferbynnu dau wyneb?

Mae'n creu rhyw fath o ddrama. Mae'n creu rhyw fath o drydan – trydan yn mynd rhwng dou ben gwahanol.

### O'ch dychymyg chi ma'r cymeriade 'ma?

Ie yn hollol. Na dw i ddim yn mentro eistedd a tynnu llun o bobol.

Wrth feddwl am y llunie. Ma pensaernïeth yn thema drwyddyn nhw i gyd. Wi wostod yn hawdd iawn i neud llunie o adeilade. Beth arall o'n i wedi gofyn i'n rhieni a gelen ni fynd yn bensaer. A wedson nhw 'Wel ma hwnna yn broffesiwn ardderchog ond dy'ch chi ddim gwerth yn neud Maths.' Sim unrhyw bensaer heddi yn neud maths. Erbyn heddi ma quantity surveyor bob amser yn swyddfa penseiri sy'n neud Mathemateg yr adeilad. Y cyfan ma'r pensaer yn neud yw gneud y cynllun a'r darlun.

Wi wedi cadw llyfre yn mynd nôl i 1955 braslunie o lunie dyfrliw. Mae'n bwysig i chi gadw braslunie. Ma mwy nag ugen ohonyn nhw. 1953 a 1950.

O'n i wedi neud y portread 'na o Rhodri yn gwisgo blazer newydd. 1950. O'n i'n agos i dair ar ddeg pan 'nes i hwnna.


### A fyddech chi'n hoffi gweld rhacor o lunie?

*(Gallwch ddarllen fersiwn llawn o'r cyfweiliad gyda Prys Morgan ar wefan y Stamp nawr!)*

# Sticeri

Artistiaid clawr Y Stamp

*I ddatlu rhifyn olaf Y Stamp, gwahoddom artistiaid cloriau'r gorffennol i gyfrannu sticer at y 100 rhifyn cyntaf. Fel arall, torrwch allan fan hyn a gludwch y sticeri w!*



## ALLWEDD

- 1 Marian Broschott
- 2 Bethan Scorey
- 3 Jenö Davies
- 4 Manon Awst
- 5 Steffan Dafydd
- 6 Gwenni Llwyd
- 7 Efa Blossö-Mason

# YMATEB i GELF (HANNAH + JASMINE CASH YN YMATEB I WAITH LEA SAUTIN)



Yn ystod y cyfnod clo dechreuais arbrofi gyda dulliau animeiddio am y tro cyntaf. Mae wedi teimlo fel cam naturiol ar ôl i mi fod yn arbrofi gyda phrint, ffotograffiaeth a modelau papur 3D ers graddio. Yn aml roeddwn yn defnyddio elfennau o hen chwedlau fel man cychwyn ar gyfer fy ngwaith print, ond ar gyfer yr animeiddio diweddar dwi wedi gadael i'r meddwl grwydro heb boeni gormod er mwyn creu straeon syml a byr i'w rhannu ac eraill drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae wedi bod yn bleser ac yn ddihangfa animeiddio'r bydoedd bach doniol yma ar fwrdd y gegin.

DAWNS Y PYSGOD


Lea Sautin

*Dawns y Pysgod*

////

*Hannah +*

*Jasmine Cash*



*Ymateb  
Hannah a  
Jasmine Cash  
mewn dawns  
i fideo  
'Dawns y  
Pysgod' Lea  
Sautin.  
Gwylwch y  
ddau fideo  
llawn ar ein  
gwefan  
nawr!*

# Cerdd : Heather Williams

Digon

Gallwn fyw ar dy harddwch,  
Mynd i ardd y Tuileries gyda'r wawr,  
I wefr y garreg ddisglair lwyd,  
Sy'n addewid o ddigon.

Gallwn ddrachtio'r asur awr ginio,  
Rhwng onglau'r canghennau dof  
Yn rhesi coed y Palais-Royal,  
Sy'n fathemateg o ddigon.

Gallwn wrando ar y gwres  
Yn ymbil am lonydd prynhawn,  
Nes estyn am y machlud melfed  
Sy'n gwrlid o ddigon.

Paris, 2019



TAITH GELF RITHIOL :

R  
H  
U  
F  
A  
I  
N

Mari Griffith

Gyda'r rhyddid i deithio a darganfod dinasoedd newydd yn teimlo'n bell iawn eleni, un ffordd o ddiwallu'r awydd i grwydro yw edrych ar ddarluniau neu hel atgofion am deithiau a fu. I'r Eidal fydda i'n mynd gan amlaf yn fy nychymyg, gwlad lle ges i'r cyfle i fyw am gyfnod ac sydd felly yn agos iawn at fy nghalon. Mae hi hefyd yn wlad sydd wedi denu sawl artist o Gymru dros y canrifoedd. Felly yn nyddiau Covid, rhith-daith amdani!



Os yw Rhufain yn brydferth ac yn hynafol, mae hi hefyd yn llethol o boeth ym misoedd yr haf. Ar ddiwrnod crasboeth o Awst, mae'r Rhufeiniaid i gyd yn dianc i'r traeth ac mae'r strydoedd yn wag. I'r rhai anffodus sydd ar ôl (tramorwyr a gweithwyr ar y cyfan), y lle gorau i fod yw - nid y Colosseum neu'r Forum - ond unrhyw adeilad gydag aerdymheru, boed yn siop, yn westy neu'n amgueddfa (y dewis delfrydol, gyda digon o gelf i ddiddanu). A dyna sut, un prynhawn Sul tanbaidd rai blynyddoedd yn ôl es i lochesu yn y Galleria Nazionale d'Arte Moderna, adeilad crand neo-glasurol ar gyrion y parc mawr sydd uwchlaw canol y ddinas. Gyda'i orielau eang, nenfydau uchel, braidd dim ymwelwyr (pwy sy'n mynd i Rufain i weld celf fodern?) ac, yn bwysicaf oll, aerdymheru effeithiol, hwn oedd y lle perffaith i dreulio oriau mwyaf poeth y dydd. Cychwynais gyda lluniau'r Post-Macchiaioli ar ddechrau'r llwybr cronolegol o gwmpas yr oriel, cyfoeswyr i'r Ôl-

argraffbaentwyr yn Ffrainc. Ar ddiwedd y 19edd a dechrau'r 20fed ganrif, roeddent yn paentio tirluniau amhosib o liwgar wedi eu trochi yng ngolau disglair yr haul. Dwi'n cofio'r foment y cerddais i mewn i'r oriel a darlun crwn trawiadol yn dal fy sylw yn syth bin. **Darlun\*** o gastanwydden farw, ei brigau yn foel, yn sefyll yn fusgrell o flaen hen ffermdy Eidalaid, y ddau mewn cysgod llwm ond y tu ôl iddynt brynau isel wedi eu goleuo gan liwiau cynnes a disglair y machlud. Mae'r neges yn un addas i ni eleni: mewn cyfnod tywyll, dydy goleuni byth yn bell. Wrth edrych ar y label, gwelais - yng nghanol yr oriel hon o gelf Eidalaid - mai enw Cymraeg oedd gan yr artist: Llewelyn Lloyd.

Roeddwn i wedi darllen amdano flynyddoedd yn gynt, yn llyfr T. Gwynfor Griffith, cyn-Athro Eidaleg Prifysgol Manceinion, ond doeddwn i erioed wedi gweld ei luniau yn y cnawd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn yr Eidal gan mai yno y ganwyd a magwyd Llewelyn. Symudodd ei dad a'i ewythr i'r Eidal o ardal y Fflint yn y 1860au ac ymsefydlu yn Livorno, canolfan fasnachol bwysig ar y pryd, ar arfordir orllewinol Toscana. Roedd busnes y teulu yn un llewyrchus a llwyddiannus ond celf yn hytrach na masnach aeth â bryd y Llewelyn ifanc. Aeth i hyfforddi mewn stiwdio gelf yn Livorno, ochr yn ochr a Modigliani, sy'n enwog heddiw am y noethluniau synhwyrus a baentiodd ar ôl symud i Paris.

Ond yn Toscana, ei ardal enedigol, arhosodd Llewelyn, gan symud i Firenze ac arbenigo mewn tirluniau: golygfeydd lliwgar, llachar, heddychlon ac optimistiadd eu naws – yr union math o lefydd sydd wedi llenwi ein breuddwydion yn ystod y cyfnod clo. Ond cafodd Llewelyn un anffawd. Er gwaetha'i fywyd cwbl Eidalaid, cadwodd ei ddinasyddiaeth Prydeinig (a oedd ganddo trwy ei dad), ac oherwydd hyn cafodd ei garcharu fel 'enemy alien' yn yr Eidal yn ystod yr Ail Ryfel Byd a'i yrru i gamp yn yr Almaen. Goroesodd ond bu farw ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach, yn 1949, yn saithdeg mlwydd oed.

Er bod yr artistiaid hynny a ddaeth i ymweld â Chymru neu i fyw yma yn cael cryn sylw yn y 'canon' artistig Cymreig - artistiaid fel Turner, Piper, Herman a hyd yn oed Curnow Vosper, paentiwr yr enwog Salem, a dreuliai ei wyliau yn ardal Harlech, beth am yr artistiaid a anwyd yng Nghymru ond adawodd er mwyn hyfforddi a dilyn gyrfa, neu sy'n rhan o'r diaspora Cymreig? Mae'r rhain yn aml yn llai amlwg yn y famwlad. Mewn cyfrif Instagram (@celfair), dwi'n bwrw golwg ar rai o'r rhain: artistiaid fel John Griffiths o Sir Drefaldwyn a fu'n gweithio yn India'r Raj yng nghwmni ei gyfaill John Lockwood Kipling (tad Rudyard); neu Owen Jones, un o'r ffigyrau amlycaf yn y maes dylunio yn Oes Fictoria, a dyfodd i fyny mewn cartref Cymraeg ei hiaith yn Llundain, yn fab i'r hynafiaethydd Owain Myfyr. Ond nid i India nac i Lundain y mae'r daith rithiol yma am fynd, ond i'r Eidal, ac i Rufain yn benodol, dinas lle dreuliais i dair mlynedd bendigedig ac sydd wrth fy modd, ar drywydd rhai o'r artistiaid o Gymru fu'n byw yno neu sy'n bresennol yno trwy eu celf.



Wrth i wres yr haul leddfu ar brynhawn Sul, mae'n amser gadael yr Oriel Gelf Fodern, croesi'r parc a mynd i lawr y grisiau serth sy'n disgyn i ganol Rhufain: i'r Piazza del Popolo, sgwar eang a mawreddog sy'n gartref i obselisk Eifftaidd a champweithiau hynod Caravaggio. Enw'r ardal hon yw'r Tridente gan bod y dair brif stryd mewn siap fforch trionglog. Fan hyn mae'r siopau drud a'r gwestai moethus heddiw; Bulgari, Bottega Veneta a Prada, ond yn y gorffennol hon oedd ardal yr artistiaid, yn llawn bwrlwm a stiwdios. Dros y blynyddoedd, bu sawl artist o Gymru yn byw yma, gan gynnwys y cerflunydd **John Gibson\*\***, Yn enedigol o Gonwy, tyfodd Gibson i fyny yn Lerpwl a hyfforddi yno fel saer maen cyn mynd ati i astudio anatomi a cherfluniau clasurol ar liwt ei hun. Yn 1817, yn 27 mlwydd oed symudodd i Rufain lle dysgodd ei grefft gyda cherflunydd pwysicaf y cyfnod, Antonio Canova, meistr yr arddull neoglasurol. Mae cyn-stiwdio Canova, sydd rownd y gornel, heddiw'n gaffi ecsentrig, llawn castiau o'i waith. Roedd Gibson cyn hir yn cael ei adnabod fel 'Gibson of Rome' ac yn rhedeg un o stiwdios mwyaf prysur a llwyddiannus y ddinas, yn Via della Fontanella, lle fyddai teithwyr o Brydain yn mynd i brynu celf. Mae'r lleoliad daflad carreg o'r Via Margutta, a oedd hefyd yn enwog am ei stiwdios a gweithdai, ac nes ymlaen yn gartref i'r cyfarwyddwr ffilm Federico Fellini, a grisialodd Rhufain y 60au yn ei gampwaith La Dolce Vita.



Tra'n byw yn Rhufain cyfarfu Gibson a'i gymar oes - artist arall o Gymru, Penry Williams\*\*\*. Roedd yn fab i baentiwr tai ym Merthyr Tydfil ac fel bachan ifanc roedd ei dalent artistig mor eithriadol nes iddo ddal sylw'r meistri dur William Crawshay a John Guest. Gyda'u cefnogaeth ariannol nhw, aeth i astudio yn y Royal Academy of Arts yn Llundain cyn symud i Rufain, fel nifer o artistiaid y cyfnod. Cyrhaeddodd ddeng mlynedd ar ôl Gibson, yn 1827, ac arbenigo mewn tirluniau o'r wlad gyfagos a golygfeydd delfrydig o fywyd Rhufeinig. Roedd rhain yn boblogaidd ymhlith teithwyr o Brydain, fel gwaith Gibson. Bu'r ddau yn byw yn y ddinas am weddill eu hoes, a chan mai dim ond yn arwynebol mae strydoedd y Tridante wedi newid ers hynny, mae'n hawdd dychmygu'r ddau yn byw ac yn bod yn Rhufain – dau Gymro o gefndiroedd cyffredin, yn byw gyda'i gilydd, ac yn llwyddo yn un o ganolfannau artistig pwysicaf Ewrop. Bodolaeth tra wahanol, mae'n siwr, i'r hyn a fyddai wedi bod yn bosib ei chael ym Mhrydain ar y pryd.

Wrth barhau ar ein taith, dim ond munudau mae'n cymryd i gyrraedd y Grisiau Sbaenaidd, un o brif atyniadau Rhufain, sydd fel arfer yn llawn o heidiau o bobl o bedwar ban byd ond ar hyn o bryd yn wag. Mae'r grisiau enwog yma yn ymddangos yn y ffilm Roman Holiday (1953) fel man cyfarfod Audrey Hepburn a Gregory Peck. Islaw, yn y Piazza di Spagna, bu artist arall o Gymru yn byw rhyw ddeugain mlynedd cyn i Gibson gyrraedd, sef Thomas Jones. Yn wreiddiol o Bencerrig yn Sir Drefaldwyn, astudiodd Jones yn Llundain gyda'r tirluniwr o fri, Richard Wilson, Cymro arall fu hefyd yn gweithio yn Rhufain. Dyma lle ddatblygodd Wilson y tirluniau clasurol sy'n nodweddialdol o'i waith, yn arddull Claude Lorraine, artist Ffrengig a dreuliodd y rhan helaeth o'i yrfa yn Rhufain. Dim syndod felly i Thomas Jones ddilyn llwybr ei feistr i'r Eidal, a rhentu tŷ daflad carreg o'r Grisiau Sbaenaidd ar Caffè Greco, lle byddai ymwelwyr i'r ddinas yn ymgynnull. Mae'r caffi dal yno heddiw, y bar hynaf yn Rhufain: agorodd yn 1770 a cyrhaeddodd Jones yn 1776. Ond methodd a denu busnes y teithwyr Prydeinig felly symudodd ymlaen i Napoli, penderfyniad a oedd yn elw i hanes celf. Oherwydd tra'n byw yno, torrodd Thomas Jones dir cyfangwbl newydd gyda'i luniau craff, syfrdanol o fodern o adeiladau a thoeau cyffredin a blêr\*\*\*\* y ddinas fawr, gythryblus hon. Yn sgîl y rhain y daeth Jones yn adnabyddus (a hynny dim ond yn yr 20fed ganrif) yn hytrach na'r lluniau mwy confensiynol a wnaeth yn Rhufain, sy'n efelychu Wilson ac yn canolbwyntio ar fannau enwog fel y Colosseum – sef y fan olaf ar ein taith.

Dim ond hanner awr o gerdded a dyma ni o flaen y Colosseum, cawr o strwythur sy'n sefyll ers dros ddwy fil o flynyddoedd. Mae'n adeilad gwirioneddol eiconig gan fod gan bawb ddelwedd ohono yn eu meddwl, boed o gerdyn post, magned ar ddrws ffriy yn atgof neu'n ddarlun. Mae artistiaid wedi darlunio'r adeilad rhyfeddol hwn ers

canrifoedd (sydd yn un o saith o ryfeddodau'r byd) ond pwy oedd y cyntaf i'w gofnodi mewn ffotograff\*\*\*\*\*? Wel Cymro! Roedd Calvert Richard Jones o deulu cefnog yn Abertawe ac yn gyfaill i'r arloeswr ym maes ffotograffiaeth William Henry Fox Talbot. Bryd hynny, gŵyr bonheddig, dysgedig oedd yn gwthio ffiniau ffotograffiaeth; roedd angen arian a dealltwriaeth wyddonol i wneud hyn. Yn 1846, yn fuan wedi i Talbot ddyfeisio techneg y 'calotype', sef proses ffotograffig cynnar, teithiodd Jones drwy Ewrop, i'r Eidal yn arbennig, i gymryd lluniau o fannau enwog y wlad a'u gyrru nôl at Talbot i'w printio a'u gwerthu.

Felly dyma ni ar ddiwedd ein taith rithiol – heb hyd oed gyffwrdd ar yr ymwelwyr a chysylltiadau Cymreig mwy diweddar. Siwrne arall fydd hwnnw! Ac un go iawn yn hytrach nag un rithiol gobeithio.

*Roma mi manchi!*



## Cyfeirnodau:

\* Llewelyn Lloyd, Il Castagno Morto, 1908, Galleria Nazionale d'Arte Moderna

\*\* Penry Williams, John Gibson, 1845, Accademia di San Luca, Rhufain (portread)

\*\*\* John Gibson, Penry Williams, Amgueddfa Cymru (portread)

\*\*\*\* Amgueddfa Cymru

\*\*\*\*\* Calvert Richard Jones, Colosseum Rome, 1846, V&A

(Lluniau'r ysgrif: Mari Griffith)



## Gwranddo

Morwen Brosschot / Kim Atkinson

... anhebyg i unrhyw beth dw i wedi'u darllen yn y Gymraeg, yn llwyddo i fod yn gynnil a gwyllt a thyner ar yr un pryd (Dyfan Lewis)

Casgliad o gerddi dwfn, astud a diamser mewn llais sy'n treiddio trwy ddwndwr y byd cyflym a materol sydd ohoni i gyhoeddi'n dawel: 'dyma fi'. Geiriau Morwen Brosschot a delweddau

## Dweud y Drefn pan nad oes Trefn: Blodeugerdd 2020

gol. Grug Muse & Iestyn Tyne

Antholeg o 100 o gerddi Cymraeg gan dros 60 o feirdd cyfoes.

Pecyn adnoddau cynhwysfawr, yn cynnwys llawlyfr, cwestiynau engreiffiol, clipiau sain, fideos a mwy i gyd-fynd a'r gyfrol ar gael am ddim i athrawon, ynghyd a gostyngiadau sylweddol ar gopiau o'r flodeugerdd i sefydliadau addysgol.

Prynwch eich copiau o gyfrolau'r stamp o'n gwefan, [ystamp.cymru/cyhoeddiadau](http://ystamp.cymru/cyhoeddiadau), neu holi un o'n stocwyr stampus yn Llangefni, Porthaethwy, Caernarfon, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog, Croesoswallt, Y Bala, Aberystwyth, Aberteifi, Caerfyrddin, Abertawe neu Gaerdydd! Ewch i

Cyfrolau newydd o farddoniaeth gan Llio Elain Maddocks, Grug Muse, Alaw Fflur Tomos, Iestyn Tyne ac eraill ar y gweill, ac ar y ffordd yn fuan!

[ystamp.cymru/cyhoeddiadau](http://ystamp.cymru/cyhoeddiadau)

Llongyfarchiadau ffocin stampus i Rhys Iorwerth ar ennill Gwobr Michael Marks 2020 am ei bamffled carthen denau, a gyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Stamp. Copis dal ar gael!

# Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol

CYNLLUN UWCHRADEDDIG (Q596)

Tystysgrif / Diploma / MA

*Llawn amser / Rhan amser*

Cwrs unigryw sydd yn eich paratoi yn drwyadl ar gyfer gyrfa yn y byd cyfieithu, gan gynnig profiad amhrisiadwy yn y gweithle.

Anelwch am y cymhwyster cydnabyddedig hwn, a chewch sail gadarn ar gyfer gweithio ym maes cyfieithu.

[www.aber.ac.uk/cyfieithu](http://www.aber.ac.uk/cyfieithu)

[astudiaethaucyfieithu@aber.ac.uk](mailto:astudiaethaucyfieithu@aber.ac.uk)



## Canolfan y Celfyddydau **Llantarnam Grange** Arts Centre

Rydyn ni'n chwilio am Artistiaid fyddai'n hyderus yn arwain neu'n cynorthwyo gweithdai celfyddydol yn rhithiol ac yn y cnawd (i blant, oedolion ifanc, a phobl hŷn) ar gyfer sawl cyfle gyda thâl drwy gydol y flwyddyn. Rydwn ni wir yn awyddus i annog mynegiadau o ddiddordeb gan bobl Dduon a phobl o liw nad ydyn nhw'n Ddu. Anfonwch ffeil pdf o'ch gwaith a CV at [education@lgac.org.uk](mailto:education@lgac.org.uk) i fynegi diddordeb.

I gael rhagor o wybodaeth am Llantarnam Grange, ewch i: [www.lgac.org.uk](http://www.lgac.org.uk)

Galwad  
Agored

Y S G R I F

## Ambell dwll

Mae'r tyllau'n ymddangos ym mhobman, allan o nunlle. Mewn fideo byr gan Owain McGilvary a Yan White, *A Glorious Manifesto in Support of Holes* (ar gael i'w wyllo ar Vimeo), gwelwn dair delwedd ochr-yn-ochr, yn dangos tri thwll. Mae tri llygad-camera'n dilyn trywyddau paralel y tri thwll, tyllau sydd hefyd yn ffenestri, yn crwydro tri gofod anial. Bob hyn a hyn mae blocs o destun yn ymddangos: The artists are trying to see if they can find any sort of penetration in the structures, ayyb. Dyma sefydlu erotics chwareus o dyllau mewn waliau, tyllau mewn papur, tyllau i bawb a thyllau o bob math.

Dwi'n canfod cysur o'r ffaith bod y sgwennwr Wayne Koestenbaum yn gweld tyllau ymhobman hefyd. Iddo ef, mae cysyniad o "hole-conscious fiction and theory, a prose eager for rifts in maleness" wrth graidd gwaith rhai o gewri llenyddiaeth queer, o Herve Guibert i Guy Hocquenghem i Pierre Guyotat i Michel Foucault; ambell athrylith a pervert sy'n cydnabod a dathlu potensial diddiwedd y twll. Mewn cyfweliad, dywedodd Koestenbaum hyn, sydd wedi bod yn troelli ar fy meddwl wrth i'r tyllau fy amgylchynnu: "An interesting body acknowledges its holes. An honest body comes clean about its hole-ridden nature." Oes: efallai bod gonestrwydd annatod yn perthyn i dwll.

Mae *The Asshole is a Tense Hole*, ffilm agit-prop gan Bob Huff ar gyfer ACT UP a fu'n chwarae'n ddiweddar yn rhan o raglen 'Picturing a Pandemic' y wefan LUX, yn destament arbennig i'r gosodiad hwnnw. Yn y ffilm, torrir clip newyddion o 1985 am gancr Ronald Regan yn ei

golun gyda delweddau gay porn. Ni luniwyd cisheterobatriarci gwaedlyd a ffasgaidd yr arlywydd hwnnw mor glir erioed.

Ers sawl blwyddyn mae moment yn ffilm Eduardo Williams, *The Human Surge*, wedi bod yn stelcio fy nychymyg. Mae bachgen yn pisio mewn cae mawr gwag, ac mae'r camera'n dilyn y pisio at y pridd, a'n cario mlaen i grwydro lawr dan ddaear, at fyd y morgrug, ac yn ddyfnach eto, at ganol y ddaear falle, cyn i



McGilvary/White

ni gyrraedd jyngl ar ochr arall y byd, i gyd mewn un siot. Gwelodd y camera hwnnw agoriad, twll yn y ddaear, ac fe gymrodd, gan ddilyn ei drywydd nes cyrraedd rhyw fath o ystyr ecstatig. Does dim byd fel y teimlad o wynebu darn o gelf pan mae'n gwneud rhywbeth fel'na. Mae pisio'r bachgen dienw hwnnw'n tystio mai yn y gwacter - trwy'r twll - mae potensial diderfyn yn byw.


Ie: potensial yw twll. Pan bostiodd yr artist ifanc Gwen Evans baentiad anorffenedig ar instagram rai misoedd nol, delwedd ffigurol feddwol mewn pinc a glas gyda sgwâr o wacter gwyn ynghanol y canfas, dychmygais fod y gwacter hwnnw yn fath o dwll, y math o dwll dechreuais weld wedyn ymhobman ro'n i'n edrych. Roedd mor brydferth, mor gadarn, mor wag. Galluogodd y twll hwnnw yn ei chynfas i fi weld ffrwythlondeb gwacter ymhobman.

Efallai nad tyllau sydd wedi bod yn fy stelcio ond y cysyniad o wacter ei hunan. Mae gymaint o'r stwff o gwmpas mae'n anodd gweld heibio yn fwy aml na pheidio. Mae rhywbeth am wacter ry'n ni'n ofni, sy'n ein hanesmwytho. Mae'n ein taro fel arwydd o golled neu ddirywiad. Ond ry'n ni'n gwybod hefyd bod gwacter yn aml yn wahoddiad i'w lenwi, yn gynnig. Mae tyllau'n ein galluogi i weld y gofod ac i brofi pleser. Gadwch i ni beidio galaru'r gwacter, ond dilyn, dilyn, dilyn y twll.

Dylan Huw

CELF

Ceri  
Rhys  
Matthews



ADOLYGIADAU



*rhwng dwy lein drên*  
gan Llŷr Gwyn Lewis (Hunan-gyhoeddiad, 2020, £5)

Yn ganolog i'r pamffled hwn mae'r dyluniadau monocrom syml gan Dafydd Owain o ddwy lein yn cyd-redeg a chydfyw ar ddalen wen. Maent yn trawsffurfio'n raddol ac yn newid eu perthynas ffisegol efo'i gilydd wrth bori'n ddyfnach i grombil y gyfrol, cyn dychwelyd yn ôl i stad o 'normalrwydd' erbyn y diwedd. Nid yw ymddygiad y llinellau hyn yn annhebyg i ymddygiad y bobl yn y cerddi ychwaith: teulu bach y bardd yn fforio trwy fetamorffosis bywyd a phrofiadau newydd, a hynny oll yn eu cartref rhwng dwy lein drên. Ond ceir islais i'r synnwyr o dreigl amser sy'n britho'r cerddi hyn o gysondeb natur a delweddau creiddiol, elfennig o'r tir: 'waeth faint o erydu fydd ar ei fyd / bach, y bydd y mynydd bob amser yno.' Yn nhryblith y byd o'i gwmpas, synhwyrwn fod y bardd yn ymgysuro ym mharhad y tir. Mae pob cerdd yn dychwelyd yn ôl at symbolau naturiol er gwaetha'r testun ehangach - megis y darlun o'r ddwy lein erbyn diwedd y gyfrol. Wrth gwrs, gellir gweld y ddwy lein megis cyfeiriad uniongyrchol at deitl y gyfrol a thrigfan teulu'r bardd hefyd. Synnwyr cyferbyniol o gartref sydd yn y cerddi hyn fodd bynnag, sy'n plethu'n briodol i'r cyferbyniadau parhaus sydd rhwng y pethau dros dro a pharhaol yng ngeiriau'r bardd. Ysu i ddianc o

rigwm bywyd ei gartref a'r 'holl gybolfa wirion' yw awgrym y bardd yn y gerdd sy'n rhoi'r teitl i'r gyfrol, 'rhwng dwy lein drên'. Serch hynny gwelwn gartref parhaol y bardd yn ei gyswllt annatod i gysondeb natur yn ei fywyd, wrth iddo gyffelybu ei eiriau i'r 'barrug sy' / yn loetran am fymryn eto o flaen ein tŷ'.

Mae archwiliad y bardd o'i berthynas gyda chyfansoddion parhaol ac amharhaol ei fywyd yn brawf o onestrwydd personol ei lais - rhywbeth nad yw'r gyfrol yn dlawd ohoni. Yn ogystal â defnydd eang o'r ail berson personol i siarad yn uniongyrchol â thestun y gerdd, nid yw'n petruso rhag cwestiynu ei hun a phortreadu ansicrwydd yn ei ddweud ychwaith, sy'n cyd-fynd efo'r naws mwy personol ac unigryw a hanir o gyhoeddi'n annibynnol. Dyma gyfrol hygyrch gan lais cyffredin, llais un ohonom ni'r darllenwyr yn hytrach na bardd mawr di-gyffwrdd ar bedestal. Fodd bynnag, nid yw'n cau'r llenni ar y byd tu allan wrth iddo ddarlunio'i fyd bach ef o fewn y pamffled. Gwelwn sawl digwyddiad torfol yn cael eu plethu'n gynnil i'w eiriau hefyd megis yn y gerdd 'llythyr o wlad yr iâ' wrth sôn am 'etholiad arall / yn treiglo'i ffordd yn araf ar fy ffôn'. Dyma

nòd o gydnabyddiaeth gan y bardd i'r gybolfa wleidyddol dros y ddegawd diwethaf sydd wedi bod yn gefndir tywyll i'n bywydau bob dydd, gan gynyddu perthnasedd ei gerddi i'w gynulleidfa.

Er iddynt ymddangos, ar yr olwg gyntaf, i fod yn weddol unffurf o ran mesur a chyfansoddiad, roedd effaith eclecticig y cerddi yn eu darlleniadau yn ddiddorol i'w nodi. Cerdd a wnaeth wir daro ergyd ynof oedd 'sut yr aeth y gwenoliaid adref', oherwydd ei hymdriniaeth foel a sensitif o alar personol y bardd trwy'r defnydd o drosiad estynedig yr adar mudo. Yn wir, credaf fod y bardd ar ei orau yn canu'n syml gan ganolbwyntio ar un trosiad estynedig i greu ergyd, megis y symbolaeth yn y cerddi 'garlleg' ac 'ail-bapuro'. Ond yn rhyfedd, wrth bori trwy'r gyfrol i bigo llinellau a oedd yn aros yn y cof, ni syrthiais mewn cariad ag un ymadrodd penodol yn y cerddi hyn eithr cysyniadau'r cerddi unigol yn eu cyfanrwydd. Yn hytrach, cefais fy hun yn cael fy nhynnu i mewn i linellau o glyfwrch megis 'rhywbeth fel gwymon yn ein clymu'n ein gilydd / a'n dal ar y dibyn i'r môr

gael poeri atom' yn y gerdd 'crwydro', er i mi beidio â chael fy swyno gan y gerdd hon fel cyfanwaith cystal â 'garlleg'. Fodd bynnag, efallai bod yr amrywiaeth hwn o fudd i'r gyfrol, gan sicrhau fod apêl amrywiol gan bob cerdd yn hytrach na gadael i un neu ddau loddesta ar yr holl sylw.

Mae'r pamffled yn dirwyn i ben ar ffurf 'serenâd cyn symud', wrth i'r bardd fyfyrion ar ei brofiadau wrth baratoi i symud ymlaen i ddalen newydd mewn cartref newydd. Caiff y '[g]ladair wllithog efo siocled poeth i'w yfed' dros dro ei gyferbynnu â'r '[t]ir, daear, awyr' parhaol er mwyn ymdrin â pherthynas y bardd ag ansicrwydd y dyfodol – ansicrwydd sydd wedi dwysau'n sylweddol i nifer dros y blynyddoedd diwethaf pan gafodd cerddi'r gyfrol eu hysgrifennu. Dyma'r bardd yn crynhoi'r syniadau a archwilir trwy gydol y gyfrol i un lobsgôws mawr o gwestiynu, archwilio hunaniaeth a fforio trwy fywyd rhwng dwy lein drên, gan greu diwedd glo priodol i'r pamffled uchelgeisiol a llwyddiannus hwn.

## ***Y Dychymyg Ôl-fodern: Agweddau ar Ffuglen Fer Mihangel Morgan gan Rhiannon Marks (Gwasg Prifysgol Cymru, 2020, £19.99)***

Neges Facebook. Criw'r Stamp mewn panics gwyllt bod neb ar gael i adolygu cyfrol newydd Rhiannon Marks. Dyma fi - er na fydd yr adolygiad yn cyfrannu at yr arolwg REF - ond ble i ddechrau?

'Chwilio am syniadau?' gofynnodd fy nghydweithwraig, Dr Meleri Elan Bones. 'Mae gan Hugh Bevan adolygiad o Stryd y Glep ar ffurf dyddiadur, a fi'n siŵr bu adolygiad o gyfrol gyntaf Rhiannon Marks ar ffurf llythyr...'

Awgrymir yn Y Dychymyg Ôl-fodern y byddai cyflwyno llenyddiaeth ôl-fodern fel gwaith Mihangel Morgan mewn ffordd academaidd draddodiadol yn gwneud cam ag ef. Noda Marks ei bod felly'n llunio Beirniadaeth Greadigol, sef 'hybrid o ysgrifennu sy'n chwalu ffiniau rhwng beirniadaeth a llenyddiaeth'. Mae'r syniad o herio 'awdurddod' testun academaidd, a'i lais amhersonol arferol, yn rhan ganolog o feirniadaeth o'r math, ac yn cynnig cyfle i feirniad archwilio ffordd newydd o gyflwyno gwaith ymchwil.

O ran ei ffurf, mae'r astudiaeth yn dilyn hynt a helynt bywyd Dr Mari Non, darlithydd ym Mhrifysgol Caerefydd, wrth iddi lunio cyfrol am straeon byrion Mihangel Morgan ac ymgymryd â dyletswyddau amrywiol ei swydd, megis arwain seminarau, cynadledda, cyfrannu at gyfnodolion ac eistedd ar Bwyllgor Llên yr Eisteddfod. Cyflwynir fforymau trafod, gyda myfyrwyr yn cyflwyno dadleuon a dadansoddiadau amrywiol i'r drafodaeth. Mae ymddiddan o'r fath yn

nodwedd gyffredin mewn astudiaethau Beirniadaeth Greadigol eraill, megis Saunders y Dramodydd Tudur Hallam. Yn aml, nid un llais absoliwt sy'n perthyn i feirniadaeth greadigol, ac o'r herwydd, mae modd archwilio sawl agwedd o'r un pwnc. Yn ogystal â hynny, onid yw'r trafod yn Y Dychymyg Ôl-fodern yn ymdebygu i weithgareddau ymchwil 'go iawn'? Mae trafod syniadau, cynnig argymhellion darllen a rhannu profiad yn rhan annatod o waith ymchwil, nad yw, fel arfer, yn cael ei gofnodi.

Cnoc ar y drws. Cyfaill. 'Ti 'di sylwi bod Rhyddid y Nofel a Y Sêr yn eu Graddau dros 20 oed erbyn hyn?' holodd Dr Manon Eleri Cones. Y Dychymyg Ôl-Fodern yw'r astudiaeth gynhwysfawr gyntaf ar y stori fer ers 1979. Nodir yn y gyfrol bod 'dirfawr angen' datblygu'r drafodaeth yn y Gymraeg, ac fel academydd sy'n ymddiddori ym myd rhyddiaith, dyma gytuno'n llwyr a chydabod bod Y Dychymyg Ôl-fodern yn gyfraniad gwych i'r drafodaeth honno. Wrth i fi ystyried hyn, dyma gnoc arall ar ddrws y swyddfa. Myfyriwr - Melinda Elsa Lones - golwg digon sheepish arni, a chlamp o astudiaeth academaidd gan Dr Maldwyn Taflun Lewis yn ei llaw. 'Os raid i fi ddarllen e gyd?' Nid dyma'r adeg i gyfaddef wrthi, 'Na, jyst chwilia am ddyfyniadau allweddol.' Onid yw darllen gwaith llawn jargon academaidd fel nofio (ahem, boddi) mewn pwll o driog? Yn wir, hoffwn petai mwy o bobl yn ysgrifennu'n feirniadol yn null Marks. Mae'n hynod ddarllenadwy ac rydw i'n llwyddo bob tro i ddarllen ei chyfrolau o glawr i glawr, gan

fwynhau gwneud hynny. Roeddwn yn poeni'n wreiddiol na fyddai gan yr ail gyfrol hon yr un hud â'r cyntaf, Pe Gallwn Mi Luniwn Lythyr, ond cefais fy siomi ar yr ochr orau. Mae yna hefyd elfen o genfigen, wrth edifarhau na fu modd i fi feddwl am gyfrwng mor wreiddiol ar gyfer fy ngwaith ymchwil fy hun!

PING! E-bost: yr Athro Dedwydd Roberts yn gofyn i fi ei helpu i rannu darlith am lenyddiaeth canoloesol dros Zoom i griw Merched y Wawr Aberdyddgu. Chwarae teg iddi wir... a dyma feddwl eto am amryw ffyrdd Dr Mari Non o rannu eu hymchwil. Mae lle i ofyn a phendroni pwy fydd wir â diddordeb yn y gyfrol hon tu hwnt i gylchoedd cyfyng y byd academaidd? Yng ngholofn Pedwar ar y Pryd cylchgrawn Slolwg yr

wythnos hon, mae Mrs Marian Eluned Mones yn honni eu bod hi'n methu fforddio prynu'r ffasiwn swmp o gyfrol, heb sôn am fuddsoddi ei hamser prin i'w darllen pob gair. Credaf, yn sgil y gyfrol hon, y dylid gwir holi ymhellach am hygyrchedd gwaith ymchwil. Oni ddylid gwneud gwaith academaidd yn fwy hygyrch, a meddwl eto am sut mae'i rannu? Cyhoeddi erthyglau Llên Cymru ac Ysgrifau Beirniadol ac ati ar-lein? Oes gwersi i'w dysgu gan yr Eisteddfod AmGen, a rannodd ddarlithoedd y Babel Len eleni ar Youtube? Beth am gyflwyno ymchwil ar ffurf podlediadau? ...efallai bod gwneud ambell ddarn tu hwnt i'r arolwg REF yn dda o beth wedi'r cwbl.

*Adolygiad gan Dr Mirain Elen Jokes, Prifysgol Caerefydd.*

## Adlewyrchiad

*'Nid mater o deimlo "braidd yn drist" ydy o.'*

- meddwl.org

Gwelodd, y drych yn graciog,  
yn batrymau blin  
hyd wyneb di-ddim;  
di-deimlad,  
di-ddweud  
di-alw amdano,  
ond eto'n  
tawel sgrechian,  
yn galw ar i rywun glywed  
ei waedd  
fud;  
edau'r gwir yn datod,  
yn araf greithio'r  
drych.

**GARETH EVANS JONES**

# NEL a Ken

gan Megan Davies

## STORI NEL



Gosododd hi'r siocled, losin a'r cylchgrawn ar y bwrdd gyda nodyn.

Diolch am orfodi fi i 'neud rhywbeth. Roedd rhaid. Gobeithio gewch chi joio'r siocledi ayyb.  
Nel x

Lapiodd hi ei sgarff yn dynn a chloi'r drws. Roedd hi'n edrych 'mlaen at yr awyr iach. Fuodd y diwrnodau diwethaf yn rhestr hir o ferfau Ffrangeg a dyddiadau pwysig. Dihunodd, astudiodd, golchodd a chysgodd. Roedd diffyg oriau yn y dydd ac er hynny, roedd hi'n glynu at gyfiawnhad dyddiol i dreulio oriau ar Instagram yn myfyrio am berffeithrwydd bobl eraill. Rhyw dro rhwng casau'r braster o gwmpas ei chluniau a sgoffio bar arall o siocled, penderfynodd Nel fod rhaid newid rhywbeth. Nid nawr oedd yr amser i foddi yn ddistaw yn ei phryderon.

"Haia, ti'n oce?"

"Ti 'to. Popeth yn oreit? Le ti off, te? Nag oes gwersi da ti?"

Roedd llyfrau ar ei chefn, cap ar ei phen a llais ei mam yn ei chlustiau.

"Fi'n dechrau yn y cartref heddiw. Cofio fi'n sôn?"

"O blincin' eck, ydw. Na fe. Ti'n cerdded ar dy ben dy hun? Nag yw e'n dywyll?"

Roedd e'n tywyllu a'r awel yn oeri ac oedd, roedd Nel yn tyfu'n fwy ymwybodol ei bod hi ar ei phen ei hun. Gwrthododd gyfaddef hynny. Pen lawr, fydd e'n ffein. Fyddai di'n cyrraedd mewn deg munud.

"Mam, fi'n iawn. Ti'n gwybod 'ny."

"Ti 'di cael rhywbeth twym i fwyta?"

Er bod Nel wedi treulio blynyddoedd diwethaf ei bywyd yn gwrthod a gwadu pryderon ei mam, roedd hi hefyd yn ei ffonio, er gwaetha'r amser, er mwyn osgoi cerdded unman ar ei phen ei hun. Roedd cytundeb distaw rhwng y ddwy. Roedd ei mam yn byw yn ei phoced. Fyddai Nel yn ffonio a fyddai mam yn cynhyrchu digon o sgwrs i'w chynnal tan ei bod hi'n cyrraedd drws ei thŷ unwaith eto a'r allwedd yn troi.

"Joia cariad. Fydd e'n neis iti fod allan o'r tŷ."

"Falle' wnâi ffonio ti fory, Mam. Hwyl."  
Roedd y ddwy yn gwybod yn wahanol.

Tynnodd Nel ei chlustffonau allan a'u stwffio yn ei phoced. Canodd hi'r gloch a chlywodd sŵn y meic. Symudodd ei hwyneb yn agosach at y drws a chlirio ei gwddw.

"Helo 'na, Nel Jones ydw i. Dwi 'ma ar gyfer y darllen."

Tawelwch.

"Y darllen?"

"Sori, ugh, ie. Y grŵp darllen? Dwi yma gyda'r brifysgol."

A gyda buzz, roedd Nel yn sefyll ar garped hufen yn cael ei chroesawu gan y rheiddiadur. Wedi wythnosau o fod mewn ystafell wely o'r un tymheredd a'r hydref tu fas, roedd y gwres yn gynnes. Cochodd ei bochau yn sydyn. Dartiodd ei llygaid ar draws y neuadd wrthi iddi bilo'r haenau o ddeunydd oddi ar ei chorff. Ar yr hysbysfwrdd, roedd yna boster llachar.

'Barddoniaeth a llenyddiaeth gyda chriw Prifysgol Bryste. Dydd Mercher, 1600. Dewch yn llu am fisgedi, paned a cherddi.'

Doedd Nel ddim yn gwybod beth i ddisgwyl. Fe gafodd hi e-bost ddechrau'r tymor yn sôn am brosiect gan yr adran lenyddiaeth yn y gymuned. Cyfle i gwrdd â phobl newydd tu hwnt i'r swigod academiaidd, dywedodd yr e-bost. Cyfle i gynnig eich amser i achos pwysig yn eich ardal leol. Ac er y manteision amlwg o gynnig rhywbeth neis i bobl eraill, doedd dim ffordd o wadu'r manteision iddi hi chwaith. Roedd gwirfoddoli wastad yn edrych yn dda ar y CV a gyda phwysau ei blwyddyn olaf, roedd gwrthod sgiliau newydd i'w CV yn dwp. Roedd hi hefyd yn dyheu am y cwmni.

Eisteddodd wrth aros am drefnydd y grŵp. Fe ddywedodd yr e-bost i ddod a llyfr neu ddwy heddiw. Dewisodd hi Frankenstein, sef yr hyn roedd hi'n darllen ar ei chwrs. Penderfynodd ei thad fod hynny yn rhy ddifrifol. Mae angen bach o hwyl a sbri arnyn nhw, meddai fe, rhywbeth fel Pam Ayres neu stori'r Nadolig.

"Nel? Helo 'na, Tomasz ydw i. Ma' pawb yn galw fi'n Tom."



Safodd Nel ar ei thraed yn sydyn, gan dynnu ei sgert yn daclus a gwenu. Roedd Tom fel pin mewn papur. Gwisgai dei leilac a chrys gwyn wedi ei dycio yn daclus yn ei drowsus.

“Ydw i’n hwyr, Tom? O’n i’n meddwl byddai lot mwy ohonom o’r brifysgol yma.”

“Pwy ddywedodd fyddai lot ohonoch chi?” holodd gan gilwenu. “Ti yw’r unig un sydd wedi cofrestru, Nel.”

Wedi hanner awr o lenwi dogfennau DBS, fe aeth Tom a Nel i’r ystafell ddarllen. Roedd y coridorau wedi eu gwau o gwmpas ystafelloedd llawn golau’r dydd yn pylu’n araf. Clywodd glincian cwpanau o goffi a phytiau o ddrama Radio 4 yn llifo allan o’r ystafelloedd. Llenwyd ei ffroenau ag arogl lafant.

Wrth gerdded i’r cartref, dychmygodd welyau ysbytai wedi eu gosod mewn rhesi a hylif diheintio yn cael ei chwistrellu dros bob arwyneb gan y nyrsys meddygol. Teimlodd Nel gywilydd. Nid lle i farw ’mo hwn, ond cartref i fyw.

Jigsaw o gadeiriau patrymog oedd yr ystafell ddarllen. Eisteddodd menyw yn ei chadair olwyn gyda’i chefn i’r drws. Drws nesaf iddi, roedd dyn gyda’i goesau wedi’u croesi a’i ên ar ei frest. Roedd trydydd person yn eistedd ar gadair ger y ffenest yn syllu tu fas ar yr adar yn prancio ar garped o ddail euraidd.

“Helo... bawb. Wow, oce, ma na dri ohonoch chi.” Gwenodd Tom. “Dyma Nel o Brifysgol Bryste, sydd yma ar gyfer eich grŵp darllen.”

Chwyrnodd y dyn yn y gornel a’i ben yn siglo i fyny ac i lawr gyda phob anadl. Trodd y fenyw ei phen, yna gwenu.

“Nel, dyma Margaret. Roedd hi’n dysgu hanes yn y Brifysgol flynyddoedd yn ôl. Ma’ hi hefyd yn siarad bach o Ffrangeg os ydych chi’ch dwy eisiau ymarfer. Draw acw mae David. Peiriannydd oedd David. Gwaith blinedig, yn ôl y sôn. A dyma...”

“Nel, Ken ydw i. Croeso i’r Hafan. Mae’n hyfryd i gwrdd â chi.”

Neidiodd Ken i’w draed yn sionc. Edrychodd Nel arno a dychmygodd sut ddyn oedd e pan oedd e’n iau. Yn gawr o ddyn, myfyriodd, ond gyda chroen llac oedd yn casglu o amgylch ei lygaid erbyn hyn a breichiau tenau. Gwisgai siwt frethyn brown gyda chrys a thei.  
“Neis i gwrdd â thi... chi... sori Ken.”  
“Eisteddwch, Nel. Gwnewch eich hunan yn gyfforddus.”

Diflannodd Tom unwaith eto gan adael Nel ar ei phen ei hun gyda David yn chwyrnu, Margaret yn canu a Ken yn ei frethyn.

Yng nghartref teuluol Nel roedd adrodd straeon yn gamp gystadleuol. Treuliodd hi flynyddoedd cynnar ei phlentyndod ar gol ei thad—cu yn parablu am bobl a’r byd, yn cyfnewid straeon a bwyta losins Werther’s.

Ond eleni, roedd y gannwyll tu fewn iddi wedi diffodd a’r golau a’r gwres oedd yn ei chynnal yn gwanhau. Gyda phob diwrnod oedd yn hedfan heibio, teimlodd fod tapestri ei ffrindiau wedi dechrau breuo. Treuliodd ei diwrnodau yn yfed coffi ar ei phen ei hun a darllen llyfrau. Nid dyma oedd ei chynllun.

“Mae gen i lyfr yn fy mag. Dwi’n darllen Frankenstein yn y brifysgol ar hyn o bryd. Fyddwch chi eisiau darllen ar y cyd?”

Gwenodd Nel ar Margaret gan ymestyn y llyfr tuag ati.

“Be chi’n meddwl, Margaret? Frankenstein amdani?”

“Kate fach, ma’ nhw’n gwerthu bresych yn John Lewis nawr.”

“Kate ydy merch Margaret,” sibrydodd Ken.

Edrychodd Ken ar y llyfr, gan bwylllo am eiliad a’i sbectol ar flaen ei drwyn i archwilio’r bwystfil gwyrdd.

“‘The creature’s desire for companionship is one of his most human qualities,’ dyna ddywedodd rywun am Frankenstein. Punter, efallai, sai’n siwr. Mae’r enwau yn dianc o fy mhen erbyn hyn. Ie, na fe, mae pawb eisiau cwmni, dyna’r neges.”

## STORI KEN



Gorweddodd Ken ar ei wely am ryw bymtheg munud cyn i’r larwm ganu. Golchodd, gwisgodd, ac yfodd ei goffi wrth wrando ar benawdau’r bore ar y radio. Tynnodd y llenni nôl a sbïodd allan ar y rhieni yn cusanu pennau eu plant cyn eu tywys i mewn i’r ysgol gynradd gyferbyn.

Yr un drefn ar hyd ei oes, ond gydag ambell newid ar hyd y ffordd. Roedd ei fywyd nawr yn dawel. Llenwai ei ddiwrnodau gyda geiriau pobl eraill; myfyrdodau’r beirdd mawr a damcaniaethau’r gwyddonwyr. Roedd e’n benderfynol o naddu ei ymennydd yn ddyddiol, be bynnag ddeuai i’w gorff. Penderfynodd mai dyna fyddai ei gynllun ar gyfer llenwi’r twll yn ei galon.

Chwalwyd y tawelwch gyda chaniad sydyn y ffon. Does neb fel arfer yn ffonio adeg

yma'r bore.

"Helo 'na Dad, Josh sy' ma."

Eisteddodd Ken ar ben ei wely a'i ffon yn ei ddwylo.

"Joshua. Sut mae?"

"Fi'n gwybod dwi heb alw am sbel. Mae'n flin gen i. Mae'r gwaith jyst yn, ugh, wel, boncyrs. Ti'n gwybod fel ma' hi."

Oedd, roedd Ken yn gwybod. Fe droediodd ar hyd yr union yr un llwybr a'i fab cyn i'w goesau arafu a'i esgyrn ddechrau meddal.

Roedd Joshua yn hedfan o un lle i'r llach yn darlithio'r gyfraith. Cyn iddo gychwyn ei swydd ac ar ôl i'w fam farw, newidiodd y berthynas rhwng y tad a'r mab. Wyt ti wedi bod yn bwyta, wyt ti'n cael digon o awyr iach, wyt ti'n cadw dy ffon 'mlaen....

Roedd Ken yn teimlo ei annibyniaeth yn llithro drwy ei ddwylo gyda phob diwrnod oedd yn mynd heibio. Hiraethodd am gyfnod pan oedd Joshua yn cydio yn ei ddwylo a'i dynnu ar y llawr i chwarae lego wrth edrych arno fel arwr.

"Mae'n iawn, boi, paid â phoeni. Fi'n gwybod dy fod yn brysur."

"Wyt ti'n cadw'n brysur? Lot yn mynd 'mlaen yn yr Hafan?"

"O, ti'n gwybod, mae'n wyllt ma. Parti ar ôl parti."

Clywodd Ken sŵn treiddgar yn ei glustiau. Sŵn y byd tu fas. Sŵn bwrlwm a phrysurdeb. Sŵn anghyfarwydd iddo.

"Excuse me, i'm on the phone. Can you give me a minute? Sori Dad, dwi mor sori, well ifi fynd."

Gwenodd Ken a chofio'r cyfnod pan oedd ei fam ef ar ei phen ei hun. Mae pwynt yn cyrraedd ac mae'r allwedd yn troi. Mae'r plant yn dechrau ymddwyn fel rhieni. Mae platiau tectonig y berthynas yn symud. A dyna le oedd Ken a Joshua: rhyw le yn sownd rhwng ffrindiau a gofalwyr.

Plygodd ei byjamas yn daclus a'u gosod ar ei glustog. Roedd ganddo oriau i'w gwastraffu cyn i Nel gyrraedd. Roedd e'n mwynhau cael ei chwmmi hi, er ei fod yn cwestiynu pam fyddai merch ifanc yn dewis treulio ei hamser gyda hen ddyn yn trafod y byd. Yr oriau gyda hi oedd yr unig ynni oedd yn ei gynnal drwy weddill yr wythnos.

## STORI NEL A KEN



"Nes i brynu mins peis i ni."

Gosododd Ken y plât ar y bwrdd a thynnu ei gadair yn agosach at Nel. Gwenodd hithau.

Roedd yr ystafell wedi ei goleuo gan gylymau o oleuadau a thinsel.

"Felly, sut wyt ti? Ydy'r coleg yn dda?"

"Ie, yn dda. Diolch. Pa gerddi wyt ti eisiau darllen yr wythnos hon?"

Plygodd Nel i mewn ar ei hun a dechreuodd chwilota yn ei bag am lyfr a rheswm i osgoi edrychiad Ken. Teimlodd y gwres yn teithio i fyny ei bochau a'r dagrau yn casglu yn ei llygaid. Anadlodd.

"O Nel fach, be' sy?"

"Sori, dwi mor sori. Dwi'n iawn." Anadlodd. "Beth am i ni gael y mins peis, te?"

Gafaelodd yn unrhyw fath o sgwrs fyddai'n llenwi'r amser.

"Mae'r ddau ohonom yn gwybod bo' ti ddim eisiau bwyta nhw," meddai Ken.

Dechreuodd Nel chwarae gyda'i dwylo a suddodd i mewn i'w chadair fel plentyn bach yn cael stŵr gan ei rhieni. Doedd dim modd osgoi'r sgwrs. Tasgodd y dagrau yn ddi-stop o'i hwyneb. Roedd Ken yn gwybod yn iawn ac wedi gwybod ers rhai wythnosau.

Gosododd ei law ar law Nel - y tro cyntaf iddo ei chyffwrdd. Meddylodd am fyd lle fyddai Nel yn gweld ei hun fel yr oedd ef yn ei gweld hi.

Eisteddodd y pâr yn dawel. Roedd y tawelwch yn swllyd yn ei phen hi. Os dwi'n rhannu'r hanes gyda Ken, meddylodd, a fydd mam yn gwybod? Fel yr oedd hi'n sefyll, roedd y stori yn perthyn yn unig iddi hi, fel parcel wedi ei selio yn dynn. Roedd y merched yn y tŷ yn gwybod ond yn dawnsio o gwmpas y pwnc fel petai yn prancio ar fflamau yn droednoeth.

"Wyt ti eisiau trafod y mater, Nel?"

Siglodd ei phen.

"Be' am inni jyst eistedd yn dawel, te?"

"Diolch, Ken. Ti'n ffrind."

# ADOLYGIAD

## AMSER MYND

Dyfan Lewis (Gwasg Pelydr, 2020, £10)

Man cychwyn llawer o lèn deithio Gymraeg mewn gwirionedd yw'r dychwelyd i Gymru. Prinnach o lawer yw'r cyfrolau hynny sy'n cymryd profiad cydamserol y teithio yn ganolbwynt iddynt. Perthyn i'r ail-gategori y mae'r gyfrol hon. Nid nad yw'r ôl-drem ar waith yma, fodd bynnag; dywedir llawer am Gymru a Chymreictod yng nghwrs y teithio trwy dde-ddwyrain Asia, ond ceir ymwybod â goblygiadau'r daith a'i chyd-destun uniongyrchol. Peth symudol a byw yw'r ymwybod hwnnw yn Amser Mynd. Mae'n digwydd yno, nid fan hyn.

Yn groes i'r duedd a welwn mor aml i restru enwau llefydd pell fel petaent yn swyn sy'n cynysgaeddu'r llefarwr â rhyw eangfrydedd a diwylliedigrwydd, archwilir yn y gyfrol hon arwyddocâd llythrennol y llefydd hynny. Hynny yw, beth yw eu delwedd? Sut y creir y ddelwedd honno, ac ar gyfer pwy? Ac a yw'n cyfateb i realiti'r llefydd hynny?

Cawn gyfoeth o ddelweddau yn hyn o beth. Gwêl yr awdur ymhobman ar ei daith amlygiadau'r byd cyfarwydd, archgyfalafol ac Americanllyd yr aeth yn rhannol i ffoi rhagddo; mae hwnnw'n estyn hyd yn oed i'r manau hynny sydd i fod i gynrychioli'r wedd fwyaf dilys a diledryw ar y gwledydd mae'n ymweld â nhw. Yn yr ysgrif 'Temlau', clywn am rai o addoldai Bwdhaidd enwog a nodweddiadol Gwlad Thai a Chambodia, er enghraifft, ac er i'r awdur ryfeddu at geinder y cyfan o'i amgylch a'r holl haenau hanes ger ei fron, mae'n sylwi ei fod yn dwrist gyda'i gamera yn treulio'r golygfeydd fel petaent yn nwyddau traul. 'Dyma efallai oedd yr adegau lle'r oeddwn yn teimlo fy mod i'n tarfu fwyaf, wrth i'r twristiaid geisio dogfennu delw arall eto fyth o'r Bwda', wrth i'r bobl leol dawel weddio o'i amgylch. Dyna osod patrwm cyson, y tyndra rhwng yr arwyneb rhwydd, parod, a'r sylwedd oddi tano, tu hwnt i'r iaith Saesneg a'r cyfeiriadau hawdd eu deall.

Ond nid yw pethau mor un-cyfeiriad â hynny. Clywn yn yr un ysgrif am Wat Rong Khun – Y Deml Wen: teml weddol newydd a godwyd yn 1997 ar adfeilion nodedig, hŷn. Mae hi'n adnabyddus am ei mawredd a'i gwaith celf enwog sy'n darlunio uffern yn gymysgfa ryfedd o gymeriadau Hollywood ac eiconograffeg rhyfeloedd diweddar America (a Phrydain at hynny). Er bod yr awdur yn gweld 'ymgais ôl-fodernaidd' gyffrous i 'drawsffurfio'r hyn y mae teml yn ei wneud', fel petai hen draddodiad yn defnyddio grym y byd newydd, ymwithiol yn ei erbyn ei hunan, cyfeddyf '[fod] arian yn llefaru yn y llefydd mwya annisgwyl'. Y cwestiwn annifyr sy'n llechu fan hyn yw pwy sy'n cymathu pwy yn union?

Efallai taw mynegiant croywaf y tyndra hwn yw'r ysgrif 'Money Talks', sef, o bosib, ysgrif orau'r casgliad. Llinell o It's Alright Ma (I'm Only Bleeding), gan Bob Dylan sy'n darparu'r teitl a hefyd naws gyffredinol y sylwebaeth ddeifiol: 'while money doesn't talk, it swears'. Dyna fynd at wraidd y grym sy'n gyrru'r gyfrol yn ei blaen. Yma a thraw, yr hyn sy'n iro'r sioe dwristaidd yw doleri America, ac yn dynn ar eu sodlau gwyrddion, yr iaith Saesneg. Sylwa'r awdur sut mae'r hyn sy'n cael ei gyflwyno iddo yn gwyro dan gyfaredd grym economaidd y byd Gorllewinol mae'n perthyn iddo, a sut ei fod yntau, trwy fod yno, yn rhan o'r system a'r sioe, er dymuno ei throsgynnu. 'Roeddwn i'n rhan o'r llif o Ewropeaid ac Americanwyr oedd ar yr un siwrnai, ac roedd popeth wedi ei becynnu ar gyfer ymwelwyr, ei saniteiddio, a'i gyfieithu i'r Saesneg'. Gwêl ei fraint ei hunan; gwêl y tlodi wrth ei gyfoeth cymharol. Mae yna gymaint yn digwydd tu hwnt i'r arwyneb Saesneg, ac erys yn anghyffwrdd. Ond nid yw'n ddeuoliaeth syml, chwaith, rhwng yr arwyneb bas a rhyw ddyfnder diwylliannol dirgel. Sonia yn yr un ysgrif am ennyd hapusach yn rhannu te gyda llwyth y Lisu, yn ymddangosiadol bell o'r cyfan a 'heb un gair o iaith gyffredin'. Ond sylwa, yn ddigalon, taw 'y peth cyson a chyhafal i ni ei rannu (heblaw am de, oedd cyfalafiaeth'. Dyna pryd mae'r arian yn rhegi.

Mae llawer mwy y gellid sôn amdano, a'r gyfrol yn llawn afiaith a syndod yn gymaint ag ymholi a dadrith. Mae yma ymwybyddiaeth dreiddgar ar waith. Dyma gyfrol wrth-gyfalafol iach.

# T R O E D L E

## Cartrefi Cymru : Huw Williams



Ymgom gyda JR Jones (O 1967)

“Mae'r angen am wreiddiau i'w deall yn gyntaf oll fel angen am 'lawr' neu 'droedle'—am leoliad. Rhaid deall ei 'angen am fangre' fel 'angen am fychanfyd'. Ac ystyr hynny yw na fedr dim llai na chymdeithas gyfan leoledig ddod yn 'gartref' ac yn 'gynefin' iddo. Mewn geiriau eraill, y mae'r angen am wreiddiau yn dod yn angen am gymdogaeth ac yn angen am wlad.”

Edrychaf ar ddarlun sydd yn gasgliad o leoedd fy (mhum), milltir sgwar - a thŷ fy mhentyndod yn eu canol. Mannau fy ngwreiddiau cryfaf, wedi eu gweu i mewn i un darn o bapur. Edrychaf ar y darlun wrth eistedd mewn static ym maes carafannau yn y Borth, a weithiais ynddi un haf yn ystod fy nyddiau Prifysgol. Lle yr wyf wedi dychwelyd iddo - er gwaethaf y pandemig - ar gyfer dathlu fy mhenblwydd yn ddeugain. Ie, dyma fy nhroedle, fy nghynefin, fy nghymdogaeth.

Ond rhywbeth mwy yw gwlad neu fychanfyd. A oes wir eu hangen hefyd? Oni fyddai'r (pum), milltir sgwar yn ddigonol? Ac yna sylwaf nad y troedle penodol hwn y buasai - ac nad fy nhroedle penodol i, oni bai am y ffaith iddi drigo o fewn y wlad benodol hon, a'r ffaith imi fyw ynddi drwy ddrych fy nwy fychanfyd.

“Ond beth yw 'gwlad'? Nid darn yn unig o wyneb y ddaear mohoni. Pobl ydyw, yr aeth y darn daear a drigiannwyd ganddynt dros yr oesoedd i mewn i wneuthuriad eu gwahanrwydd”

Ie, byw ymysg pobl rydym yn ei wneud, wrth gwrs, a'r bobl rheiny yn rhannu'r un bychanfyd hynny a luniodd ein gwahanrwydd ni - yr hyn sy'n ein gosod ni ar wahân. Y bychanfyd yw byd yr ysbryd yn bennaf; nid ysbryd yn yr ystyr crefyddol a olygir fan hyn, ond yn hytrach y man hwnnw lle y mae ein hymwybyddiaeth yn byw, a hwnnw wrth gwrs yn wahanol yn achos pob un garfan o bobl, gan ddibynnu ar ba iaith (neu ieithoedd), sydd yn gyfrwng i'r ddaear o'u cwmpas gyntwair ynddynt, drwy'r broses o gydymdreiddio.

Dyma graidd syniadau JR am y Gymraeg, wrth gwrs, ac iaith yn gyffredinol. Bod tir ac iaith yn treiddio i mewn i'w gilydd drwy broses ffurfiannol sydd yn gweld yr iaith yn cael ei ffurfio gan realiti corfforol a materol y tir, a'r iaith yn treiddio i'r tir gyda phob bryncyn a nant yn derbyn priod enw. Ac o fewn y cydymdreiddio hwn y costrelwyd hanes a diwylliant, ac felly gwahanrwydd pobl. Dim ond meddwl am ing colli enwau Cymraeg sydd ei angen, er mwyn ymdeimlo â phwysigrwydd yr hyn a fynegir gan JR, neu wrando ar sgyrsiau di-bendraw Tudur Owen ac Aled Hughes am ddiffyg defnydd enwau traddodiadol. Yr iaith hon felly, a thrwyddi y tir, yw sylwedd y bychanfyd sydd yn ein cynnal ni, a ninnau hefyd yn ei gynnal drwy eu hatgynhyrchu'n barhaus gyda'n defnydd beunyddiol ohoni. Ond beth a ddaw o'r 'wlad', o'r 'bobl', a'r darn o ddaear a'i gwahanrwydd, os na pharheir y cydymdreiddio ar y gwastad gweithrediadol, bob dydd? Ai cael ei glastwreiddio drwy gydymdreiddiad iaith arall fydd ei ffawd?

“Yn awr, fy amcan yn yr ysgrif hon yw seinio rhybudd, sef ei bod hi bellach yn gwbl bosibl i weddillion y Bobl Gymraeg fynd yn ddi-droedle ar eu tir eu hunain. Eithr sut hynny, meddwch, gan y byddent ex hypothesi yn dal i siarad eu priod iaith? Craffer ar yr ateb: ânt yn ddi-droedle drwy gael eu briwsioni a'u teneuo allan gymaint yn eu broydd ag i fethu cynnal o'u cwmpas y trwch dyladwy o gydymdreiddiad tir Cymru â'r iaith Gymraeg. A diwedd y teneuo fydd tranc. Canys wrth y 'trwch dyladwy o gydymdreiddiad' golygaf y mesur hwnnw o dyndra—density—yng ngwead y cydymdreiddiad na ellir hebdo warantu y deil ein gwahanrwydd mwyach mewn bod. Meddwn yn Prydeindod: 'Oblegid yr iaith fyw, yn y troedle cwtogedig sy'n aros iddi, yr ydym yn Bobl'. Eithr bellach, nid yn unig fe gwtogir ar ein troedle yn ddirugaredd, fe gawn ein gollwng fel petai'n 'rhydd' a diangor yn y troedle a erys inni gan y dreif sy'n cyson deneuo ac eiddilo cydymdreiddiad ein daear â'r iaith Gymraeg. A'r dreif honno, wrth gwrs, yw goresgyniad ein tir gan iaith arall.

Canlyniad hau iaith estron drwy'n tiriogaeth ac felly wasgu dau ffurfiant cenedligol i mewn i'r un gofod, yw malurio'n troedle, fel petai, o'r tu mewn. Mwydir ein hunig briod ffurfiant—ffurfiant ein gwahanrwydd—allan o fod. Canys dim ond mewn broydd lle bo'n daear a'n hiaith mewn cydymdreiddiad trwchus yr erys ein ffurfiant yn gyfan a dianaf. Teneuer y cydymdreiddiad drwy yrru haenau o iaith estron yn dryfrith drwyddo ac fe glafycha'r ffurfiant hyd farw. Fe ddigwydd yr hyn a ddisgrifiais yn Prydeindod, sef 'sugno ein troedle i mewn i Ofod ehangach y bydd ei ganolfan grym y tu allan i ni ac yn rhan o ffurfiant cenedl arall'

Pan ddarllenaf y geiriau yma, rwy'n tueddu i'w cymryd yn bersonol. Oherwydd pan feddyliaf am fy nhroedle, rwy'n ymwybodol fy mod innau hefyd wedi bod yn rhan o'r briwsioni, teneuo, y cwtoigi, y goresgyniad, y malurio, y clafychu a'i sugno i ofod ehangach. Yn blant i ferch o Flaenau Gwent, Saesneg oedd pennaf iaith yr aelwyd. Tueddais i siarad Saesneg gyda'r mwyafrif o'm cyfoedion, heblaw rheiny y gwyddwn eu bod yn Gymry 'iaith gyntaf' o'm cwmpas. Ond dyna'r pwynt am Geredigion yr 80au; roedd y briwsioni, teneuo, y cwtoigi, y goresgyniad, y malurio, y clafychu a'r sugno i ofod ehangach wedi bod ar waith ers peth amser. Roedd mwyafrif sylweddol aelwydydd plant fy mlwyddyn i yn yr ysgol gynradd yn rhai Saesneg; er synhwyraf fy rhagfarn o blaid fy 'mamiaith' yn y ffaith imi ond ddarganfod – neu sylweddoli efallai – flynyddoedd wedyn bod sawl plentyn yr oeddwn yn tybio i fod yn 'ail iaith' mewn

gwirionedd yn Gymry 'iaith gyntaf'. Ond roedd rhagfarn o blaid y Saesneg yn yr ardal hon o'r 'Fro Gymraeg' yn un trwyadl erbyn hynny – o leiaf felly rwy'n ei chofio. Roedd Aberystwyth – tre garsiwn hanesyddol, a chyrchfan trenau o ganolbarth Lloegr – wedi bod yn dre ddwyieithog ers canrifoedd, a'r Brifysgol wedi dyfnhau'r duedd honno. Yn fwy na dim, roedd y sefydliad pwysicaf oll – y sefydliad addysg – yn un na chymerodd y cam o drochi eu holl ieuentid yn iaith y fro. Yn wir, erbyn imi gyrraedd yr ysgol uwchradd ddechrau'r 90au, roedd ysgol uwchradd Saesneg y dre bron ddwywaith maint yr ysgol Gymraeg. Lle'r oedd cydbwysedd ieithyddol cymunedau a'r gyfundrefn addysg Gymraeg wedi cynnal y gallu i gymhathu yng Ngwynedd a Môn bryd hynny (byddai Mam wedi bod yn siaradwraig rugl - o reidrwydd – pe na bai'r teulu wedi symud o Lanfairpwll i Aber ddiwedd y 70au), roedd cynnal y trwch dyladwy o gydymdreiddiad iaith a thir yng ngogledd Ceredigion yn ofer. Pwy a wŷr, efallai nad oedd Elystan Morgan mor ddall â hynny wrth awgrymu ddiwedd y 60au, pan oedd yn Aelod Seneddol i'r sir, taw gobaith mwyaf y Gymraeg yn yr ardal oedd un ysgol uwchradd Gymraeg gyda gwahanol ffrydiau, yn hytrach na phurdeb ysgolion ar wahân.

A thybed, pan oedd JR yn ysgrifennu ar ddiwedd y 60au, pa lefydd a dybiai ef oedd bellach yn droedleoedd ystyrion o hyd? Nid syndod, efallai, oedd tôn apocalyptaidd ei ysgrifau, pan ystyriai ddiwedd ar y lefydd hyn yn ddiwedd ar y Gymraeg, i bob pwrpas. Dadleuol, wrth gwrs, yw'r dyfarniad yma, gan ein bod ni'n byw mewn Cymru bellach lle mae cymunedau Cymraeg yn britho ardaloedd Cymru ben baladr; ond wrth gwrs mae'n bosib iawn mae rhywbeth arall – rhwydwaith yn hytrach na throedle, efallai – y byddai disgrifiad JR o'r fath ffenomena, a does dim gwadu'r effaith y caiff y bychanfyd Saesneg ar natur y bywyd a'r Gymraeg a 'weithredir' ar draws y rhwydweithiau yma. Waeth beth yw eich safbwynt ar ddaliadau JR, erys natur neilltuol y cymunedau Cymraeg sy'n cynnal y 'trwch dyladwy' o gydymdreiddio, a'r golled ddiymwad y bydd ar eu hôl.

Roedd swydd gyntaf fy nhad, wedi cwblhau thesis ar Hegel a Marx yn Durham, yn ymwneud ag ymchwilio tranc ysgolion gwledig Pen Llŷn (y mae cau Ysgol Abersoch yn rhan o hyn, dros ddeugain mlynedd yn ddiweddarach). Y pryd hwnnw, yn y saithdegau, byddai'n cwrdd o bryd i'w gilydd gyda Chymry uniaith y fro. I rai o'i gydweithwyr byddai'r fath gyflwr yn un i'w dirmygu. I'm tad, oedd yn gynnyrch aelwyd Saesneg arall (ond a ddysgodd ei Gymraeg yn y gymuned, gymaint â'r ysgol y pryd hwnnw, pan

oedd de Ceredigion yn parhau i feddu ar y trwch dyladwy) roedd y berthynas unigryw honno rhwng y person a'i fychanfyd nas pylwyd gan iaith arall yn fater o gyfareddiad, edmygedd bron. Sylwais ar yr un gyfaredd cyn i fychanfyd fy mhlant cael ei dreiddio gan y Saesneg.

Saesneg fy mam, yn rhannol; Saesneg sydd yn adrodd hanes llawer byrrach na'm Cymraeg innau, ond un sydd yn neilltuol ac a ddeilliodd o broses ffyrnig-drwyadl o gydymdreiddiad lle y bu'r iaith yn treiddio'n llythrennol i'r tir drwy ei siaradwyr, ac a ffurfiwyd hefyd yn ffwrnes danbaid y gweithfeydd. Bychanfyd ag iddo ddiwylliant a gwerthoedd sydd wedi bod yr un mor greiddiol i'r bobl sydd wedi preswyllo ynddi – ond bychanfyd na fedrai JR ei gweld fel unrhyw beth arall heblaw cynnyrch “carthffos” byd bas, cyfalafol y diwylliant Eingl-Americanaidd. Bychanfyd nad oedd ef, mwy na thebyg, wedi ei llawn ddeall. Neu nad oedd am ei ddeall, efallai. Ond stori arall yw chwalu'r bychanfyd hwnnw gan rymoedd cyfalaf, a'r ymdrechion i grafu un arall at ei gilydd ymysg y teilchion. Ynteu ai stori arall ydyw?

“Am gwta wythnos, hwyrach, yn yr Eisteddfod Genedlaethol cawn brofi blâs yr hyn nas cawn am weddill y flwyddyn, sef ein cylchynu gan 'fychanfyd' cyfan, trwchus, o ddim ond sylweddau gwreiddiol ein gwahanrwydd. Eithr ni eill bod inni wreiddiau na dinas barhaus hyd yn oed mewn darn o Gymreictod cyfan na phery ond am wythnos! Sut i estyn cyfanrwydd Cymreictod maes yr Eisteddfod dros droedle cyfan—dros diriogaeth cymdeithas gyfan—yw craidd ein problem ni bellach.”

Teimladau cymysg sydd gen i am yr Eisteddfod, rhaid imi gyfaddef. Mae'r rhain yn deillio yn rhannol o'r ffaith fod rhaid imi rannu penblwydd gyda'r digwyddiad. Yn yr un modd a'r sawl sy'n cael eu penblwydd adeg 'dolg mae rhywun yn teimlo bod y diwrnod mawr wastad yn mynd i fod yn eilradd i ryw rym trosgynnol nad oes modd achub y blaen arno. Tan y pandemig hynny yw. Ond rhaid imi gyfaddef, dan yr amgylchiadau, teimlai fel buddugoliaeth wag braidd, cael y 5ed o Awst i fi'n hunan y flwyddyn hon.

Ta waeth am hynny, mae cymeriadu JR o'r steddod yn help wrth ddeall y cyffro yna y mae rhai yn ei deimlo, a'r golled y maen nhw'n ei theimlo ar ei hôl. Oherwydd dyma'n union y mae'n cynnig i'r sawl sydd yn ei deisyfu, sef wythnos o Gymreictod 'cyfannol' lle y mae bywyd yn drwyadl Gymraeg - ac mae'r profiadau sylweddol, diwylliannol, yr un mor werthfawr â'r rhyddid am wythnos i beidio gorfod cloffi dros eiriau ar ddechrau pob sgwrs mewn ymgais

i geisio sicrhau'r hawl i siarad Cymraeg yn orfoleddus. Rhyddfreniad rhag y cloffwrwm parhaol a'r frwydr 'wastad-isel' feunyddiol i geisio sicrhau'r hyn sy'n fwyaf naturiol, sef mynegiant yn eich mamiaith. A dyna esbonio imi hefyd, efallai, pam nad wyf yn profi'r un wefr sylfaenol na'r un golled chwaith, oblegid fy magwraeth mewn mamiaith arall. Rwyf yn 'wreiddiedig' yn y Saesneg ac o ganlyniad byth yn profi'r un angen dirfodol i ddianc oddi wrthi.

Gyda bod yr hunaniaeth 'Welsh' yna'n deillio'n sylweddol o'r bychanfyd a ffurfiwyd ym merw'r chwyldro diwydiannol yng Nglyn Ebwy, wrth edrych yn ôl, mae'n bosib imi beidio â gwerthfawrogi ar y pryd arwyddocâd personol Eisteddfod 2010 yn y dre honno – troedleoedd fy mychanfydoedd innau yn bresennol ar yr un pryd. Llun o'm Tad-cu (na chefais y cyfle i'w nabod) yn y Lle Celf, wrth ei waith fel fforman yn y gwaith dur.

Er, mae magu plant yn y Gymraeg yn cymylu'r cwestiynau hyn oll, a'r Gymraeg nawr yn berchen imi fel iaith tad; a dyna arwain yn ôl at gwestiwn JR o estyn cyfanrwydd Cymreictod i Gymru ben baladr, sydd yn gwestiwn sylfaenol, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith fod miloedd nawr yn gorymdeithio allan o'r ysgol yn rhan o'r bychanfyd neilltuol, ond heb feddu bellach ar y cyfle i arfer y cydymdreiddiad hwnnw ar wastad ymarferol, y tu hwnt i waliau'r sefydliad. Mae'r syniad o estyn y troedle i Gymru gyfan yn mynd i barhau'n broblem am ddegawdau o dan hyd yn oed yr amodau mwyaf ffafriol (mae'n debyg o ddigwydd mwy na dim drwy'r broses o rieni yn troi eu hail iaith i'w hiaith-rhiant, hyd y gwelaf).

Yr her a wynebwn yr awr hon yw ceisio gwarchod hynny o droedle sydd ar ôl, ac yn y bôn, sicrhau cyfanrwydd Cymreictod ardaloedd o Wynedd – am fod y gweddill 'wedi mynd'.

“Mi ddywedwn i mai'r peth gwâr, pan fo bychanfyd anadferadwy ar gael ei fwydo allan o fod, yw cymryd pob cam dichonadwy i gau allan yn ddiarbed y mil dylanwadau sy'n dirgel fwyta i mewn i'w wahanrwydd. Ac yn olau-eglur bellach yng Nghymru, yr iaith Saesneg yw'r garthffos y mae trwch y dylanwadau hyn yn dylifoi mewn drwyddi.”

Cyn imi gyrraedd y Borth, mi fûm ar daith hyd arfordir Cymru. Dechreuais yn Abergwaun, lle mae Mam-gu a Thad-cu fy ngwraig yn byw ar y Cei, yng Nghwm Abergwaun, un o fannau pertaf a mwyaf nodweddiadol y Gorllewin. *A prime*

*spot, don't you know.* Y mae yna grynhoed o bobl leol yn sefyll yno, ymysg y tai gwyliau fel *The Last of the Mohicans*, yn wyneb pob anhawster. I'r de y mae Solfach, a glafychwyd ers talwm, ac ymhellach lan yr arfordir ceir Cwm Yr Eglwys, lle darganfu Dot Davies 'y Cymro olaf' yno yn ystod ei recordio diweddar. Am adrodd anthropolegol. Mae'r ymwybyddiaeth o'r stori honno, wrth eistedd wrth y lan goncrit, yn creu rhyw ymdeimlad o ffugrwydd debyg i set ffilm, lle mae rhywun yn ymwybodol nad ydi'r ffigyrau o'ch cwmpas wir yn perthyn i'r olygfa. Prin y bydda nhw'n gallu adrodd enw'r lle, heb sôn am ymglywed â'r gwahanrwydd oesol. Hen gynfas iddynt chwarae â hi, tan eu bod wedi blino gyda'r hynodrwydd, a gwaredu pob ôl ohoni.

O Sir Benfro wedyn i'r gogledd a phentre bychain Prenteg ochrau Porthmadog. Drws nesaf i'n bwthyn oedd pâr oedd wedi bod yn dod yno o Sanclêr ers blynyddoedd, ac yna drws nesaf ond un, pâr arall o Lanidloes a brynodd eu tŷ haf bach rai degawdau ynghynt. Atgof amserol, efallai, mai cyfalaf ac nid Saeson yw craidd y gormes. Ond yr un yw'r effaith ar y Troedle, wrth gwrs. A hynny'n ein hatgoffa yn ei dro

mor ddiymadferth a dienaidd ydym bellach – ein bod ni eto, ar yr unfed awr ar ddeg, yn fodlon aberthu ein gwahanrwydd ar allor y farchnad rydd.

Meddyliaf am y cynghorydd ifanc o Nefyn, Rhys, yn siarad â mi ac eraill wrth y bwrdd gegin drwy wyrth Zoom, am y farchnad gaeth sy'n bodoli bellach yng Ngwynedd, lle nad oes gan y bobl leol y rhyddid i fod yn berchen cartref yn eu cymunedau eu hunain. Heb ofod iddynt fyw adra, yn eu cynefin a'u bychanfyd. Ac fe adroddodd pob dim yn y math o Gymraeg a all ond bod yn fynegiant o'r trwch dyladwy y mae JR yn sôn amdani, y bywyd neilltuol mae'n fynegiant ohoni, ac na fydd gyda ni am ryw lawer hirach, oherwydd ein methiant i wneud yr hyn sydd yn gyfiawn, a'r hyn sydd yn wâr - sef cau cyfalafiaeth allan.

“...dealltwriaeth newydd sy'n graddol ennill tir o ddyfnder a phwysigrwydd yr angen am wreiddiau. Ac yng nghraidd yr angen hwnnw y mae'r angen am droedle — am ddaear o dan draed y gwahanrwydd a ddyry i chwi hawl i gydnabyddiaeth a pharch — am lawr, lleol a daearol, i hawl pob priod Bobl i'w lle a'u braint yn Amgylchfyd yr Oesoedd.”

## Gofod pei i chi sgwennu rhwbeth :)



celli

Dychlamol, ehedog  
oeddwn yn llan  
fy mreuddwydio.  
Tithau yn y gelli,  
bydded dy ysgwydd  
yn llwyfan i gysgodion!  
Anfona linos i'w nyth  
â'r gair olaf:

ffoes yr un  
fu yma gynt.

Y feidiog lwyd

Yr un mor gyfrin  
oedd defodau'r gorwel:

llun o'r haf yn balisâd  
rhag gweld  
y feidiog lwyd  
rhwng y tai gwag.



archfarchnadoedd liw nos

Dim ond ni'n dau, fi a'r golau melyn,  
a'r nos wrth y drysau awtomatig  
yn gwyllo. Dim o brysurdeb y prynhawn,  
a'r staff yn dylyfu gên wrth lwytho  
silffoedd neu edrych ar y lleuad  
uwchben y capel o'r tu ôl i'r til.  
Mae rhywbeth am archfarchnadoedd  
liw nos sy'n fy llonni, er eu diflastod  
yng ngolau'r dydd, a'u cyffredinedd.

---

**O W E N**

# Bywgraffiadau



**Manon Awst:** Yn wreiddiol o Fôn, astudiodd Manon Awst bensaerniaeth ym Mhrifysgol Caergrawnt cyn symud i ddinas Berlin i ddatblygu ei gyrfa fel artist. A hithau bellach wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon, mae ei gwaith celf a nifer o'i cherddi yn archwilio'r berthynas rhwng pobl a'u hamgylchedd, yn enwedig yn yr oes ecolegol fregus hon.

**Marian Brosschot:** Fy enw i ydy Marian Brosschot a dw i'n dod o Fotwnnog yn wreiddiol, ym Mhen Llŷn, Gogledd Cymru. Astudiais Gymraeg a Sbaeneg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yna symudais i Sbaen i weithio fel tiwtor Saesneg. Dw i'n gweithio fel tiwtor Cymraeg ers 5 mlynedd erbyn hyn, ym Mhwlheli i ddechrau ac yna draw yma yn y Wladfa. Er fod eleni wedi bod yn flwyddyn ryfedd i symud a byw dramor, mae hi wedi bod yn brofiad gwych serch hynny. Pan dw i ddim ar goll mewn ffeils Cymraeg dw i'n mwynhau darllen (llyfrau 'go-iawn', dim Kindle), sgwennu, dylunio a bod allan yn yr awyr agored yn cerdded, rhedeg neu beicio.

**Hannah a Jasmine Cash:** Artistiaid o Ogledd Cymru yw Hannah a Jasmine Cash, mae ei gwaith diweddar' yn gweithredu yng nghanol gwe ryngddisgyblaethol ddiddorol, yn defnyddio gwaith ffilm, choreograffi, cerflunio a gosodiadau. Defnyddir y dulliau hyn i archwilio i mewn i'r berthynas rhwng y corff, deunyddiau a'r dirwedd.

**Efa Blossie-Mason:** Mae Efa yn artist sydd yn dod o Gaerdydd ac yn byw ym Mryste. Mae hi yn creu ffilmiau byr animeiddiedig, un o nhw ar BBC iplayer ar hyn o bryd o'r enw 'Cwch Deilen' sydd amdano dwy ferch yn cwmpo mewn cariad.

**Tegwen Bruce-Dean:** Yn wreiddiol o Lundain ond wedi'i magu yng nghefnwlad Maesyfed, mae Tegwen bellach yn fyfyrwr Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor. Os nad yw hi draw yn Glôb, fedrwrch ei chanfod rhwng môr a mynydd ar y pier; clustffonau mewn, llyfr mewn llaw. *(Adolygwr)*

**Gwen Saunders Collins:** Mae Gwen yn enedigol o Farian-glas, Ynys Môn. Astudiodd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, gan gyflawni ei gradd Meistr a Doethuriaeth ar farddoniaeth merched y Cyfnod Modern Cynnar yno hefyd. Cyhoeddodd ffrwyth ei hymchwil yn ei chyfrol Alis ferch Gruffudd a'r Traddodiad Barddol Benywaidd yn 2015. Mae'n gyfieithydd sydd hefyd yn hoff o farddoni ac ysgrifennu, ac wedi cael y cyfle i gynnwys ei gwaith yn Dweud y Drefn Pan Nad Oes Trefn a chyhoeddiadau eraill yn y gorffennol. *(Adolygwr)*

**Steffan Dafydd:** Steffan Dafydd sydd tu ôl i waith Penglog. Dechreuodd Penglog fel platfform personol i gyhoeddi gludluniau, gwaith screenprintio, darluniau, dylunio a chydweithrediadau gyda artistiaid eraill ag unrhyw waith personol ar ol bwrw block nath barlysu ei greadigrwydd. @penglogco

**Jeno Davies:** Artist o Gaerfyrddin ydw i, yn byw yn Llundain ar hyn o bryd. Dwi'n creu gwrthrychau a ffilmiau sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at y cymunedau, y delweddau a'r tensiynau sy'n rhan o gefn gwlad Gorllewin Cymru. Dwi'n ystyried themau rhyngwladol drwy brism lleol. Mae ffermwyr, hipis, jetiau ymladd sy'n hedfan yn isel, tyrbinau gwynt a graffiti cenedlaetholgar oll yn chwarae eu rhan mewn mytholeg newydd o ffawtliniau gwledig Gwylltiroedd Cymru.

**Megan Davies:** Newyddiadurwraig <sup>25</sup> oed yw Megan Davies, a fu'n astudio ym Mhrifysgol Caerwysg, cyn gwneud gradd meistr ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae wedi ysgrif am fwyd ar wefan Y Stamp, a gellir ei chlywed yn darllen ei hysgrif 'Merched a'u Mamau', ar y podlediad llenyddol, 'Cawl Mympwy'. Mae'n hoff o fod ar lan y môr, yn casau caws, ac yn yfed gormod o goffi.

**Casi Dylan:** Mae Casi Dylan yn Gydlynnydd Gweithgareddau Celfyddydol ym Mhrifysgol Glasgow. Yn wreiddiol o Gwmystwyth, mae hi wedi ymgartrefu bellach yn yr Alban. Fe ddowch chi o hyd iddi, ar nos Fercher neu ddwy y mis, yn rhedeg cylch darllen Cymry Glasgow, a The Dark Philosophers - grŵp sy'n codi'r llen ar lenyddiaeth o Gymru. *(Adolygwr)*

**Nia Evans:** Cynhyrchydd creadigol a churadur, yn dangos gwaith gan berfformwyr a chyfarwyddwyr lleol ym Mryste.

**Beti George:** Cardi - o bentre Coedybryn ger Llandysul yn wreiddiol. Addysg : ysgol Ramadeg Llandysul, Coleg y Brifysgol Caerdydd. Gyrfa: dechrau fel gohebydd i'r BBC yn Abertawe. Cyflwyno rhaglenni Heddiw a Newyddion am flynyddoedd. Hefyd rhaglenni cerdd a dogfen. Cyflwynydd llwyfan Cystadleuaeth Canwr y Byd. Cyflwynydd rhaglen Radio Cymru - Beti a'i Phobl - a ddechreuodd ym 1985. Wedi gneud rhaglenni radio a theledu ar Dementia i S4C ac i'r BBC. David and Beti: Lost for Words yn ennill medal aur yng Ngwyl Ffilmiau Efrog Newydd. Cymrawd Prifysgol Bangor, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, a Phrifysgol De Cymru.



**Gareth Evans-Jones:** Darlithydd a photshiwr sgwennu o Ynys Mon ydi Gareth. Cyhoeddwyd ei nofel gyntaf, Eira Llwyd, yn 2018 a bu'n ffodus iawn i ennill y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019. Cynhyrchwyd y Ddrama, Adar Papur gan Theatr Genedlaethol Cymru, yn 2020.

**Mari Griffith:** Mae Mari Griffith yn hanesydd celf sy'n ysgrifennu, golygu a chyfieithu cynnwys ar gyfer orielau celf ac amgueddfeydd. Astudiodd hanes celf ac Eidaleg cyn mynd ymlaen i weithio yn y National Gallery, National Gallery of Art a'r Royal Academy of Arts a threulio tair mlynedd yn yr un maes yn yr Eidal. Mae hi bellach yn gweithio'n llawrydd. @celfair

**Dylan Huw:** Mae Dylan Huw yn sgwennwr ac yn weithiwr celfyddydol yn ei ugeiniau, sy'n un o sylfaenwyr y cyhoeddiad sgwennu/celf newydd, mwnwgl. Mae darnau ganddo'n ymddangos yn y llyfrau Byd Crwn (2018), dim eto (2019), Just So You Know (2020) a Queer Square Mile (2021), ac mae ganddo golofn yn Barn, ar gelfyddydau Cymraeg cyfoes yn y sffêr digidol. @dylanaber

**Carys Huws:** Ffotograffydd llawrydd o Gymru yw Carys sy'n cyfarwyddo, sgwennu a saethu eu gwaith ei hun. Bellach yn byw ym Merlin, mae'n dod o Gaerdydd yn wreiddiol.

**Miriam Elin Jones:** Mae Miriam yn awdur ac yn ddramodydd, a enillodd radd PhD o Brifysgol Aberystwyth yn 2019, am ei doethuriaeth yn trin a thrafod ffuglen wyddonol y Gymraeg. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd ei gwaith yng nghyfrolau Adref (Cylchgrawn Cara), Seren Wib a Storiâu Eraill (Y Lolfa), a Dweud y Drefn Pan Nad Oes Trefn (Cyhoeddiadau Y Stamp). Mae'n rhan o Grwp Dramodwyr Newydd Theatr Genedlaethol Cymru ers 2018, a chyd-sefydlodd cylchgrawn a gwefan Y Stamp yn 2016. Daw'n wreiddiol o Lanpumsaint, Sir Gaerfyrddin, ond mae hi bellach wedi ymgartrefu gyda'i phartner ym Mro Morgannwg.

**Gweni Llwyd:** Mae Gweni Llwyd yn artist o Ddyffryn Nantlle wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Mae ei gwaith yn adlewyrchu stad bresennol y cyflwr dynol wedi'i dal rhwng y corfforol cyffyrddol a'r digidol anghyffyrddadwy, a natur anghronolegol o lunio atgofion, gwybodaeth a phrofiadau yn y dirwedd hon sy'n datblygu'n gyflym. Mae ei phrosiectau ac arddangosfeydd diweddar yn cynnwys: Comisiwn Gŵyl y Dyn Gwyrdd (2020); ANKLE TAP, Pontio, Bangor (2020); RAT TRAP x g39, Caerdydd (2020); Anti Beta, Oriol Mission, Abertawe (2020).

**Ceri Rhys Matthews:** Crwt o Abertawe nawr yn byw yn nyffryn Teifi. Mae Ceri yn chwarae'r fflwt bren a'r pibe cwd i cynnal bywoliaeth ac i fynegu ei hun, wedi cael addysg gwledol yn wreiddiol.

**Prys Morgan:** Artist, hanesydd, sglaig, chwedleuwr, llatai, gŵr bonheddig, crwt direidus, cogydd, nofiwr môr beunyddiol cyn i hynny ddod i ffasiwn, cwmni difyr a da - dyna rai o'r labeli y gellid eu gosod ar yr Athro Prys Morgan.

**Judith Musker-Turner:** Mae Judith Musker Turner yn fardd ac arlunydd tecstiliau o Ffair Rhos, Ceredigion, sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd. Mae hi'n perfformio gyda'r grŵp bardd Cywion Cranogwen ac yn nosweithiau Bragdy'r Beirdd. Mae hi wedi cyhoeddi cerddi yn Y Stamp ac yn aelod o dîm Talwrn Y Gwenoliaid.

**Morgan Owen:** Ni wyddys yn iawn pwy yw Morgan Owen, ond dywedir iddo weithiau ysgrifennu cerddi dyrys am y lleuad. (Adolygwr)

**Lea Sautin:** Rwyf wedi fy ngeni a'm magu yn Llanbedrog, Pen Llŷn. Graddiais o adran Paentio a Phrintio Ysgol Gelf Glasgow yn 2015 ond erbyn hyn rwyf yn byw yng Nghaerdydd. @Sautinlea www.leasautin.com

**Rhys Trimble:** Mae Rhys Trimble yn bardd, arlunydd, athro a cherddor yn arnofio'n braf mewn canŵ ar yr Afon Gad... rhystrimble.com

**Hannah Sams:** Mae Hannah Sams yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Mae hi'n dysgu ystod o fodiwlau ym maes llenyddiaeth gyfoes. Mae ei gwaith ymchwil ym maes y theatr yn archwilio dolenni cyswllt rhwng Cymru, Catalwnia a theatrau cenedlaethol mewn cenedloedd diwladwriaeth. (Adolygwr)

**Bethan Scorey:** Dwi'n hanesydd yn arbenigo mewn adeiladau a phensaernïaeth Gymraeg, a dwi'n ystyried darlunio yn ffordd arall o ddathlu'r hen adeiladau arbennig sydd yn goroesi yng Nghaerdydd. Ar hyn o bryd dwi'n neud PhD yn astudio hanes Castell a Stad Sain Ffagan, ac yn gweithio yn yr amgueddfa yno fel gofalwr.

**Kandace Walker:** Mae Kandace Siobhan Walker yn lenor a gwneuthurwr ffilm o Bowys. Daeth ei stori fer, 'Deep Heart' i'r brig yng nghystadleuaeth Stori Fer BAME 4th Estate y Guardian yn 2019. Mae'n byw yn Ne Llundain.

**Heather Williams:** Mae Heather Williams yn arbenigwr ar lenyddiaeth Ffrainc, ac yn ymchwilydd academiadd wrth ei gwaith. Wedi bod yn ddigon ffodus i fyw a gweithio yn Ffrainc cyn Brexit, mae nawr yn mwynhau dysgu Ffrangeg i eraill, ac ers rhyw flwyddyn neu ddwy mae wedi dechrau ysgrifennu'n greadigol am ei pherthynas â Ffrainc.

**Huw Williams:** Mae Huw Lloyd Williams yn athronydd ac ymgyrchydd ysbeidiol sydd yn trefnu gydag Undod, a sydd newydd gyhoeddi'r gyfrol Ysbryd Morgan: Adferiad y Meddwl Cymreig, llyfr sy'n ymhel, ymysg pethau eraill, â'r angen am adroddiant cwmpasog i'r genedl, ac un sydd yn gorchfygu holltau'r gorffennol.



Diolch i  
b a w b  
s y d d  
w e d i  
cyfrann  
u at, a  
darllen Y  
STAMP  
<3 beth  
d d a w  
nesa?

Y M L

A

E

N



Diolch i'r criw stampus am y  
cicio a'r stampio  
ac am gael bod yn un  
o'r siopau stampus  
sy'n gwerthu  
Cylchgrawn  
**Y Stamp**



10 Stryd y Plas, Caernarfon, Gwynedd  
01286 674631 eirian@palasprint.com  
[www.palasprint.com](http://www.palasprint.com)

ar y Stryd Fawr ac ar Lein

## Cyrsiau Blasu Digidol Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Rheolau Nofelau Trosedd gyda Llwyd Owen  
Dydd Gwener 12 Chwefror

Adrodd Chwedlau ar Lafar gyda Fiona Collins  
Dydd Gwener 26 Chwefror

Ysgrifennu Antur i Gynulleidfa Ifanc gydag Elidir Jones  
Dydd Gwener 5 Mawrth

Barddoni i Blant gyda Mererid Hopwood  
Dydd Gwener 12 Mawrth

Caiff yr holl gyrsiau blasu eu cynnal dros Zoom, rhwng 12.00 - 1.30 pm.  
Pris pob cwrs blasu yw £9.

Am ragor o wybodaeth, ac i archebu eich lle, ewch i:  
[www.tynewydd.cymru](http://www.tynewydd.cymru)

